# heddwch

gaeaf 2003-4
rhif 30
am ddim (neu gyfraniad)

cylchgrawn CND Cymru


# CAFWYD! arfau dinistr torfol*

## UDA: 10,640
## Rwsia: 8,600
## China: 400
## Ffrainc: 350
## Prydain: 200
## Israel: 100-200
## India: 30 - 35
## Pakistan: 24 - 48

ffynhonnell: Natural Resources Defense Council www.nrdc.org/nuclear/nudb/database19asp

***a dim ond arfau niwclear yw'r rheini**

**Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw**

## heddwch

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru).**

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**


**Croeso i sylwadau, llythyron a erthyglau**

**Golygydd:**
Jill Stallard
(01550) 750 260

**Cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk

**Cysodi**:
Redkite Print (01591) 610 844
redkite@onyxnet.co.uk

**Pacio** gan wirfoddolwyr yng Ngaerdydd - i ymuno â'r hapus dyrfa hon, un prynhawn bob rhyw 2-3 mis, cysyllter â Brian Jones (01792) 830 330.




# Cymru yn Erbyn y Rhyfel yr arddangosfa

Arddangosfa ffotograffig o rai o'r gweithredoedd a'r digwyddiadau gwrth-ryfel a fu yng Nghymru cyn ac yn ystod y rhyfel yn erbyn Irac yw "Cymru yn erbyn y Rhyfel - blwyddyn o ddinasyddiaeth ysbrydoledig". Mae'r arddangosfa wedi cael ei dangos eisoes yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Cynhadledd Plaid Cymru, y Deml Heddwch yng Nghaerdydd, a Neuadd y Methodistiaid, Y Drenewydd. Bydd ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth ar gyfer y Gynhadledd "Y CU a'r Agenda Fyd-eang" ar Dachwedd 15fed (gweler Dyddiadau Dyddiadur).

Arddangosir y gwaith ar ddwy ochr pedwar bwrdd 7'x 3' o faint cysylltiedig. Os gwyddoch am fan arddangos addas yn eich ardal, cysylltwch â Jill neu Rod Stallard, CND Cymru (gweler Cysylltiadau). Gellir addasu maint yr arddangosfa i ateb gofynion arbennig.

## cyfar:

■ Ledled y byd, mae mwy na 30,000 o arfau niwclear yn bodoli ar hyn o bryd yn gynwys rhai mewn storfeydd, yn cael eu hadnewyddu neu'n disgwyl cael eu datgymalu.

■ Mae gan arfau niwclear heddiw, gyda'i gilydd, buer dinistriol ryw filiwn gwaith yn fwy na'r un bom a ollyngodd UDA ar Hiroshima ym 1945.

■ Ni ellir cymharu arfau niwclear yn uniongyrchol. Mae systemau saethu, cywirdeb a phellter oll yn effeithio ar bosibiliadau dinistriol unrhyw arf niwclear unigol.

■ Nid yw Prydain wedi cymryd rhan yn yr un drafodaeth leihau nifer arfau erioed, er ei bod wedi arwyddo'r Cytundeb Atal Amlhad niwclear (CAA). Mae Erthygl VI o'r CAA yn ymrwymo Prydain a'r gwledydd eraill sydd wedi arwyddo "i negydu, yn ddiffuant, ynglwn â mesurau effeithiol yn ymwneud â diarfogi niwclear".

■ Byddai canlyniadau tebygol rhyfel niwclear yn gwneud i fygythiadau eraill i'r amgylchedd ymddangos bron yn gwbl ddibwys mewn cymhariaeth.

■ Mae digon o arfau niwclear yn y byd i ddinistrio pob rhithyn o fywyd ar y ddaear sawl gwaith drosodd. Gallai un bom ddinistrio dinas gyfan a'i chyffiniau. Mae gan y system arfau niwclear Trident Brydeinig y gallu i ddinistrio holl fywyd cyfandir cyfan, gan wasgaru radio-niwclidau marwol i bedwar ban y byd.




Brian Kavanagh

# Symud yn y cyfeiriad iawn

**Jill Evans ASE Cadeirydd CND Cymru**



**Dangosodd y misoedd diwethaf fod y gwrthwynebiad i'r ymosodiad a meddiant Irac cyn gryfed ag erioed. Mae'r protestiadau yn parhau, fel y gwrthdystiad enfawr yn Llundain ar Fedi'r 27ain. Chafon ni mo'n twyllo gan yr achos gwan a wnaed i geisio cyfiawnhau'r rhyfel, ac fel y daw mwy o dystiolaeth am dwyll y llywodraeth i'r wyneb, yna'r mwyaf blin yr aiff pobl.**

Mae'r golygfeydd dychrynllyd yn dangos dioddefaint pobl Irac wedi bod ar y teledu yn ddyddiol. Collir mwy a mwy o fywydau dynol, niweidir mwy a mwy o bobl yn ddifrifol, mae mwy a mwy o bobl yn gorfod dioddef amodau byw annerbyniol. Ac rydym ni'n clywed am fwy a mwy o hanesion ofnadwy drwy'r amser. Rydym yn gwybod y bydd oblygiadau hir-dymor enbyd i'r trasedi dynol yma. Bydd y rhain yn rhai ariannol yn ogysal â rhai dynol. Mae'r rhyfel yn barod wedi costio tua £6 biliwn. A phwy fydd yn talu am y gwaedlif? Mae'r prinder o £431 miliwn yn barod yng nghyllid awdurdodau lleol Cymru at y flwyddyn nesaf ddim yn syndod i ni. Dyna bris rhyfel Tony Blair - gwasanaethau cyhoeddus yn dioddef hyd yn oed yn fwy er mwyn arianu rhyfel sydd wedi gweld strwythurau gwasanaethau cyhoeddus Irac yn cael eu dymchwel yn llwyr. Toedd y rhyfel ddim yn ein henwau ni - ond mae'r biliau. Bellach, mae mudiadau ledled Cymru nid yn unig yn trafod oblygiadau y rhyfel, ond hefyd bynciau mwy eang fel heddwch a chyfiawnder.

Lobïo gan grwpiau o'r fath ysgogodd fi i fynd i Cancún, Mexico y mis diwethaf i brotestio hefo 15,000 o bobl eraill ym mhumed cyfarfod Mudiad Masnach y Byd (WTO). Y pwnc yn Cancún oedd ymgais yr Undeb Ewropeaidd a'r UDA i wthio rheolau masnach newydd fyddai wedi sicrhau eu blaenoriaethau nhw eu hunain gan agor marchnadoedd mewn gwledydd tlotach i gael eu hecsbloetio. Byddai'r hyn oedd yn cael ei gynnig wedi cael effaith ofnadwy ar y gwledydd sy'n datblygu. Ni chafodd y gwledydd cyfoethog eu ffordd eu hunain. Pan fethodd sesiwn siarad wnaeth barhau drwy'r nos a datrys yr anghytundebau, fe syrthiodd y trafodaethau. Roedd y gwledydd tlawd, sy'n cynrychioli dros hanner poblogaeth y byd wedi gwneud safiad hanesyddol. Roedd dim cytundeb yn well na chytundeb sal. Golyga methiant Cancún y bydd rhaid i'r 146 sy'n aelodau'r WTO ailymgynull o amgylch y bwrdd trafod ond gydag agweddau cwbl wahahnol tuag at fasnach.

Gwaith mudiadau yng Nghymru a grwpiau cyffelyb ledled y byd wnaeth hyn yn bosib. Gwnaeth pob e-bost, pob cerdyn post, a phob llythyr neu alwad ffôn wahaniaeth.

Gwaith y mudiad heddwch ledled Ewrop olygodd mai atal gwrthdaro yw un o'r elfennau mwyaf elfennol yn y drafft o'r cyfansoddiad Ewropeaidd newydd, gan gynnwys cyfeiriad at Gorff Heddwch Sifil fyddai'n ymwneud â gweithredu dyngarol. Mae drafft hefyd yn awgrymu sefydlu Asiantaeth Arfogaeth, Ymchwil a Gallu Militariaidd Ewropeaidd fydd yn "...contribute to identifying and where appropriate, implementing any measures needed to strengthen the industrial and technological base of the defence sector, to participate in defining a European capabilities and armaments policy...".

Byddwn yn gwrthwynebu hyn yn gryf.

Rydym ni'n rhan gwirioneddol o fudiad torfol ac mae'n hanfodol ein bod yn sylwi ar ac yn gwneud y mwyaf o'n cryfder. Rydym yn symud yn y cyfeiriad iawn ond mae gennym ni gryn bellter i deithio.


## *A ydych chi am fyw mewn byd...*

...a fydd yn rhydd oddi wrth ofn arfau a phwerdai niwclear?

...lle y bodlonir gwir angen pobl am ddiogelwch, bwyd, dwr glân llety a'r hawl i ofal meddygol a chyfiawnder?

...lle y bydd rhyfel a thrais yn annerbyniol, a chennym well ffyrdd o ddatrys gwrthdrawiadau na gorfodaeth a bygythiadau?

...lle y caiff y amgylchfyd a'n cyd-fodau dynol eu trin a gofal a pharch?

...lle y bydd gan ein plant ddyfodol rhydd oddi wrth effeithiau'r dechnoleg niwclear?



## *Dyma'r byd a ragwelwn ni*

**Ymunwch a'r Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear, a gyda'n gilydd cawn wireddu'r dyfodol a ddymunwn.**

***Ydw, rwyf am ymuno a CND Cymru.***

enw:....................

cyfeiriad:....................

....................côdpost:....................

teleffôn:.................... ebost ....................

Amgaeaf siec/AB am £ ☐ Yn daladawy i *CND Cymru*

☐ pâr cyflogedig:£16; ☐ oedolyn: £12

☐ digyflog a phensiynwyr:£4; ☐ myfyrwyr a ieuenctid: £4;

Dychweler I:

Aelodaeth CND Cymru, 72, Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN

amlhad

# Arfau i boeni amdanynt

**Y rhyfel yn erbyn Irac a'r canlyniadau parhaus oedd prif flaenoriaeth ymgyrchu'r Mudiad Heddwch eleni. Yn y misoedd diwethaf, dywedwyd wrthym gan wleidyddion a'r cyfryngau y dylem fod yn poeni am fod arfau niwclear gan Iran a Gweriniaeth Ddemocrataidd Pobl Korea (neu Gogledd Korea, fel yr adwaenir y wlad yn y gorllewin). Mae CND yn condemnio arfau niwclear yn gyffredinol, a phwy bynnag sy'n meddu'r arfau hyn neu sy'n bwriadu eu datblygu.**

## Gogledd Korea

Mae'n bosibl fod ganddi arfau niwclear. Cyhoeddodd llywodraeth Gogledd Korea ei bod yn tynnu allan o'r Cytundeb Atal Amlhad (CAA) a'i bod yn adeiladu arfau niwclear. Yr esgus a roddwyd am hynny oedd fod arni angen gwrthbwyso bygythiadau'r Unol Daleithau. Mae Gogledd Korea yn hawlio ei bod wedi ailbrosesu digon o danwydd hesb o'i rhaglen ynni niwclear i gynhyrchu chwe ergyd taflegryn niwclear. Mae De Korea a Japan, fel yr Unol Daleithau, wedi dweud na fyddant yn goddef arfau niwclear yng Ngogledd Korea. Mae China wedi mynegi pryder y gallai cam o'r fath arwain at ras arfau niwclear gynyddol yn y rhanbarth. Gallai Japan hefyd ymuno â'r clwb arfau niwclear. Mae'r Unol Daleithau, Japan ac Awstralia am newid y gyfraith ryngwladol er mwyn iddynt allu atal llongau o Ogledd Korea dan amheuaeth o fod yn cludo rhannau ar gyfer taflegrau. Dywedodd Gogledd Korea y gallai unrhyw gam o'r fath arwain at ryfel a fyddai'n cynnwys Japan.

Mae'r UD wedi datblygu cynlluniau rhyfel ar gyfer unrhyw wrthdaro posibl. Mae'r posibiliadau'n cynnwys hedfan awyrennau ysbïo yn agos iawn at awyrofod Gogledd Korea gan orfodi iddi lawnsio ei hawyrennau a llosgi tanwydd prin, a chynnal ymarferion milwrol di-rybudd â'r bwriad o orfodi pobl y wlad i ffoi i fynceri a defnyddio cyflenwadau gwerthfawr o ddur a bwyd. Mae rhai o swyddogion yr UD yn credu y byddai hyn yn beryglus iawn ac y gallai arwain at saethu awyrennau UD o'r awyr neu ymosodiadau ar Dde Korea.




## Iran

Mae gan Iran orsafoedd ynni niwclear ac mae ganddu waith cyfoethogi wraniwm. Pam mae angen puer niwclear ar wlad sydd â chyfoeth o olew a nwy? Mae Iran yn gwadu ei bod yn bwriadu cynhyrchu unrhyw arfau niwclear. Gwyddom yn iawn y cysylltiadau rhwng puer niwclear ac arfau niwclear ac os oes unrhyw amheuon ynglwn ag Iran, yn a rhaid gofyn cwestiynau i'r Awdurdod Ynni Atomig Rhyngwladol a Chynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig.

Mae llywodraeth Bush yn benderfynol o ddadsefydlogi llywodraeth Iran. Mae'r iaith a ddefnyddir yn y CAA yng Ngenefa ac yng nghyfryngau'r UD bron yn union yr un fath â'r hyn a ddefnyddiwyd i gyfiawnhau mynd i ryfel yn erbyn Irac.

## Israel

Tra parheir i chwilio am arfau dinistr torfol (ADT) yn Irac heb lwyddiant, anwybyddir Israel. Mae Penderfyniad Cyngor Diogelwch y CU rhif 687, o 1991 (y penderfyniad cadoediad) yn cynnwys adran sy'n galw am Ddwyrain Canol yn rhydd o arfau niwclear. A ydy'r wasg a'r cyfryngau yn crybwyll arfogaeth niwclear Israel? Amcangyfrifir y gallai fod gan Israel ryw 200 o ergydion niwclear, tua'r un nifer â Phrydain. Mae gwlad ag arfau niwclear yng nghanol rhanbarth mwyaf ymfflamychol y ddaear yn rhywbeth i boeni amdano.

## India a Pakistan

Mae'r sefyllfa yma wedi diflannu o'r newyddion yn ddiweddar. Gallai hynny fod yn gysylltiedig â'r ffaith fod y sancsiynau a osodwyd ar India a Pakistan gan yr Unol Daleithau wedi i'r ddwy wlad gynnal profion arfau niwclear wedi cael eu gollwng yn ddistaw fel gwobr am gefnogi'r 'Rhyfel ar Frawychiaeth'. Derbyniodd Pakistan $3 biliwn o gymorth ariannol a milwrol, tra bod India wedi cael cefnogaeth Prydain yn ei hymgais i ennill sedd barhaol (ond heb bleidlais atal) ar Gyngor Diogelwch y CU. Ymddengys fod 'y Gorllewin' yn credu ei bod hi'n gwbl iawn i ddwy wlad sydd wedi mynd i ryfel â'i gilydd bedair gwaith yn y deugain mlynedd diwethaf i feddu arfau niwclear. Mae hynny'n rhywbeth i boeni amdano.

## Prydain

Does dim angen Hans Blix arnom i arwain tîm i chwilio am ADT ym Mhrydain. Gwyddom fod arfau niwclear yn Faslane a Coulport yn yr Alban, yn SAA Aldermaston a Burghfield yn Berkshire, Lloegr. Gwyddom fod ffatrïoedd sy'n helpu yn y broses o greu a chynnal a chadw arfau niwclear yn Derby, Chapelcross a Devonport, Lloegr. Mae gennym hyd yn oed Weinidog Amddiffyn, Geoff Hoon, sy'n sôn am ddefnyddio'r fath arfau, os bydd rhaid, yn erbyn gwlad heb arfau niwclear. Gwyddom fod gwaith ailgylchu tritiwm yn mynd i gael ei adeiladu yn Aldermaston a bod ymgyrch egnïol ar y gweill i recriwtio graddedigion er mwyn cynyddu'r gweithlu o bron 4,000 erbyn diwedd y degawd. Gwyddom hefyd fod rhyw 200 o ymweliadau â'r Unol Daleithau gan staff o Aldermaston bob blwyddyn. Cymerodd gwyddonwyr o Brydfain ran mewn prawf 'is-gritigol' yn Nevada llynedd, gan ddod â data yn ôl gyda nhw ar gyfer eu cyfrifiaduron newydd, pwerus. Dywed y llywodraeth (Hansard 11eg Mehefin 2003) fod Prydain yn bwriadu parhau i fod â'r gallu a'r cyfleusterau i ddylunio a datblygu arf niwclear newydd pe bai angen!

**Unol Daleithau America**

Mae'r Arolwg Safle Niwclear a'r sôn am ymosodiadau milwrol rhagataliol yn dangos fod bygythiad clir y defnyddir arfau niwclear mewn gwrthdaro yn y dyfodol. Mae'r ffaith fod yr UD yn benderfynol o fwrw ymlaen ag 'amddiffyn taflegrau' ac ymdrechion parhaus yr Arlywydd Bush i reoli'r byd yn gwneud unrhyw ddatblygiad niwclear newydd yn destun pryder mawr iawn.

+ Am y tro cyntaf ers 1989, mae'r UD wedi gwneud craidd plwtoniwm – craidd ymholltol ergyd taflegryn niwclear.
+ Cymeradwywyd cyllideb o $400 miliwn i'r Pentagon ar gyfer ymchwil i arfau niwclear sy'n cynhyrchu llai o ffrwydrad (y *'mini-nukes'* bondigrybwyll) ac ar gyfer Treiddwyr Daear Niwclear Grymus (*'bunker busters'*). Os caiff y Pentagon ganiatâd i symud ymlaen i ddatblygu, bydd hynny bron yn sicr yn golygu ailgychwyn profion tanddaearol.
+ Mae pwysau cynyddol i gwtogi cyfnod profi labordai arfau niwclear i ryw ddeunaw mis neu lai.
+ Nid yw'r Gyngres wedi cymeradwyo'r Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr a go brin fod llywodraeth Bush yn mynd i wneud hynny.

Mae'r ffeithiau hyn ynglwn ag ADT ym mhedwar ban y byd yn dangos fod y sefyllfa'n wael iawn a bod digon o achos i ni boeni. Beth mae hyn i gyd yn ei olygu o safbwynt y Cytundeb Atal Amlhad niwclear? Cyhyd ag y bo'r gwledydd sydd wedi datgan fod ganddynt arfau niwclear (Prydain, UDA, Ffrainc a China) yn parhau i feddu a datblygu arfau niwclear, bydd y problemau'n parhau. Mae'r gwledydd hyn am archwilio ffyrdd o atal amlhad llorweddol (gwledydd eraill yn cael gafael ar arfau niwclear), ac eto, maent yn cyfiawnhau allforio technolegau a chyfleusterau niwclear sifil. Ar yr un pryd, maent yn anwybyddu problem amlhad fertigol (twf eu harfogaeth niwclear eu hunain). I fod ag unrhyw obaith o sicrhau llwyddiant y CAA, rhaid ymdrin â'r holl broblemau niwclear.

**Tony Myers, Gweithiwr Ymgyrchu CND Prydeinig**


**Darparwyd deunydd ychwanegol gan Nigel Chamberlain yn BASIC a Caroline Roach (CND Prydeinig).**

## heddweithredu

**Meddyliwch yn fyd-eang – gweithredwch yn lleol! Mae'r cynlluniau i ehangu a 'gwella' cyfleusterau yn y Sefydliad Arfau Atomig (SAA) yn Aldermaston yn cynnwys adeiladu labordai newydd a chyfleusterau ymchwil hydrodynamig a laser. Dywed y SAA fod arno angen y cyfleusterau hyn er mwyn gwneud profion ar ergydion niwclear Trident a datblygu a phrofi math newydd o arf niwclear Prydeinig. Bydd y SAA yn gosod ei gynlluniau ger bron Cyngor West Berkshire; ni all y cyngor eu gwrthod, ond gall eu hatgyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol a galw am Ymchwiliad Cyhoeddus. Mae Gwersyll Heddwch Menywod Aldermaston ac CND yn galw am Ymchwiliad Cyhoeddus ar sail y ffaith fod y Comisiwn Ewropeaidd wedi dweud fod yn rhaid cyfiawnhau ymarferion niwclear milwrol. Da chi, sgrifennwch at Gyngor West Berkshire yn galw am Ymchwiliad. Does dim cyfiawnhad yn y byd dros ehangu systemau arfau niwclear Prydain. Cysyllter â : Lisa Smith, Senior Planning Officer, West Berkshire Council, Market Street, Newbury RG14 5DL a/ neu sgrifennwch ar y Weinyddiaeth Amddiffyn â'ch cwestiynau a'ch gwrthwynebiadau.**

**Geoff Hoon AS, MoD, Room 220, Old War Office, Whitehall, Llundain SW1A 2EU**

## Gwobr i ymgyrchydd heddwch o Gymru



Dyfarnwyd i Joel Kenrick, un o weithredwyr blaenllaw'r mudiad lleol yn erbyn y rhyfel yng Nghymru, un o Wobrau Arweinydd Ifanc 2003 y Gymdeithas Frenhinol er hyrwyddo Celfyddydau, Gweithgynhyrchu a Masnach (yr RSA) a Chyngor Ieuenctid Prydain am ei 'gyfraniad eithriadol at fywyd cymunedol a'r gymdeithas ehangach'.

Enwebwyd Joel gan Ddirprwy Brifathro Coleg Iwerydd, Nick Lush, a ddwedodd: "Mae Joel yn ymgyrchydd o'r iawn ryw, yn un sydd wedi protestio'n gyson ynglwn ag anghyfiawnder ac annhegwch. Pan oedd yng Ngholeg Iwerydd, arddangosodd gyneddfau arwain a oedd yn ysbrydoliaeth, a gallu hynod i droi geiriau'n weithredu ar lawer achlysur. Bydd ei ddeall, ei ynni a'i angerdd yn sicrhau ei fod yn mynd ymhell.'

Roedd Joel, a aned ym Machynlleth, yn un o gyd-sylfaenwyr 'Dinasyddion Rhyngwladol dros Heddwch' ym mis Ionawr 2003 pan oedd yn fyfyriwr yng Ngholeg Unedig y Byd, Coleg Iwerydd, ym Mro Morgannwg. Ers hynny, helpodd i drefnu llu o ddigwyddiadau yn y cyfnod cyn y rhyfel yn erbyn Irac, yn cynnwys gwylnos olau-cannwyll, ffug-farw ac 'arolygon arfau dinasyddion' yn RAF Sain Tathan. Daeth â Bruce Kent a'r AS lleol John Smith i'r coleg i ddadlau gyda myfyrwyr o wledydd yn cynnwys Irac, Israel, Pakistan, UDA a Colombia. Yn ychwanegol at ei ymgyrchoedd gwrth-ryfel, trefnodd Joel sawl cynhadledd ar fyd-ehangyddiaeth, anghyfiawnder a'r amgylchedd yn ystod y flwyddyn.

Mae Joel bellach wedi ymadael â Chymru a mynd i astudio Cysylltiadau Rhyngwladol yn yr LSE, ac mae'n bwriadu parhau â'i waith. Yn ystod yr haf, bu Joel yn gweithio mewn ysgol haf ar gyfer plant Arabaidd ac Iddewig yn Israel, ac ymwelodd yn ddiweddarach â phencadlys distrywiedig Arafat yn Ramallah. Mae'n credu, er iddo fethu dros Irac, fod y mudiad gwrth-ryfel wedi chwarae rhan bwysig yng ngwleidyddiaeth Cymru a'r byd. Mewn protest yn erbyn y fasnach arfau yng Nghaerdydd ym mis Medi, dwedodd Joel: "Dwi wrth fy modd fod sefydliad prif-ffrwd fel Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau bellach yn cydnabod pwysigrwydd y mudiad gwrth-ryfel i bobl ifanc, nid yn unig yng Nghymru ond ledled y byd. Efallai nad ataliodd miliwn o bobl ar strydoedd Llundain yr ymosodiad ar Irac, ond llwyddasiant i ailfywiogi cenhedlaeth ag awydd am newid y byd. Dwi'n argyhoeddedig, er gwaetha'r anawsterau, y gall y ffaith fod pobl ifanc yn gwneud safiad dros eu delfrydau newid pethau yn wirioneddol.'

*Coleg Iwerydd, yn Sain Dunawd ym Mro Morgannwg, yw'r coleg rhyngwladol byd-enwog ym Mhrydain, sy'n ymrwymedig i ddelfrydau Coleg Unedig y Byd o ddealltwriaeth, heddwch a chyfiawnder rhyngwladol. Cysyllter â'r Swyddog Cyfathrebu, Laura Henderson (01446) 799 147 neu laura.henderson@uwc.net*

## newyddion y grwpiau

# Gweithio dros heddwch a chyfiawnder

### CND/Clymblaid Pen-y-bont

Mae Clymblaid/CND Pen-y-bont yn cwrdd ddydd Mawrth cynta'r mis yn Nhw Cwrdd y Cyfeillion, Stryd y Parc, am 7.30pm. Yn naturiol, y materion rydym yn ymgyrchu arnynt ar hyn o bryd yw – y rhyfel, goresgyniad ac ecsploetiaeth economaidd anghyfreithlon yn Irac; carchariad anghyfreithlon ac arteithio carcharorion ym Mae Guantánamo; goresgyniad milwrol anghyfreithlon Palesteina a gormes ei phobl gan llywodraeth Seionaidd Israel, ac rydym yn hyrwyddo boicot o nwyddau Israeli. Rydym hefyd yn cefnogi datblygiad fferm wynt Scarweather allan ar y môr ger arfordir Porthcawl. Rydym yn cefnogi hon nid yn unig am resymau amgylcheddol, ond hefyd er mwyn gwrthsefyll puer buddiannau olew a nwy byd-eang.
Cynhelir stondinau stryd yn gyson bob amser cinio dydd Gwener yng nghanolfan siopa Pen-y-bont ger siop Oxfam , lle byddwn yn dosbarthu taflenni a chasglu enwau ar ddeisebau. Yn ddiweddor, aethom i ddadlau'r achos gyda Huw Iranka Davies AS sydd yn gefnogwr di-edifar i safbwynt Blair ar Irac.
Rydym wedi trefnu cyfarfod cyhoeddus am **7.30 pm yn Neuadd Evergreen, Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Angel, Pen-y-bont nos Lun 1af o Ragfyr. Siaradwyr - Milan Rai ac aelod blaenllaw o'r Glymblaid i Atal y Rhyfel. Pwnc: Irac a Thu Hwnt.** Bydd digwyddiad cymdeithasol wedyn, yn cynnwys dangos Faces of War.

**George Crabb**

**Cysylltwyr:Clymblaid Pen-y-bont - Phil Dixon, (01656) 729 321, kjardine@freezone.co.uk**
**CND Pen-y-bont - George Crabb, (01446) 774 452, georgecrabb@ybontfaen.freeserve.co.uk**

### Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor ac Ynys Môn

Dal yma ac yn dal i ffynnu, gyda chyfarfodydd bob nos Lun am 6.30pm (y Ffynnon, Heol y Tywysog, drws nesaf i'r Gaplaniaeth Anglicanaidd). Mae'n grup hefyd yn rhedeg stondin bob dydd Sadwrn bron, os yw'r tywydd yn caniatáu, ger y Cloc ar Stryd Fawr Bangor 11.30am-1.00pm.
Ein blaenoriaethau ymgyrchu yw Irac ac Afghanistan, Palesteina, carcharorion Bae Guantánamo, carcharorion Belmarsh, noddfa, y fasnach arfau, cyfraith ryngwladol a swyddogaeth y CU. Ffiw!



Felly, be rydan ni wedi bod yn 'i wneud? Lobïo AS Ynys Môn, Albert Owen, am un peth. Cawsom sesiwn dda iawn gyda Milan Rai yn trafod y posibiliadau ar gyfer Irac. Aeth rhai ohonom i'r rali yn Llundain ym mis Medi, a rydan ni'n edrych ymlaen yn arw at roi croeso cynnes i Dubya ym mis Tachwedd. Rydan ni'n eitha diwylliedig hefyd, gyda thymor o ffilmiau yn cynnwys sgyrsiau a thrafodaethau, yn Theatr Gwynedd hyd at fis Rhagfyr. Y thema? 'Tu draw i echel drygioni'.
Cychwynnodd y tymor ym mis Hydref gyda sylwadau ffraeth ar gyflwr y byd gan y darlledydd a'r digrifwr, Jeremy Hardy. Mae digwyddiadau dwysach wedi cynnwys mewnwelediad diwynyddol i Israel a Phalesteina yn 'Conflict & Struggle', darlith gan yr Athro Marc Ellis o Brifysgol Baylor, Waco. Bydd cyfarfod cyhoeddus ar Ddyfodol y Cenhedloedd Unedig a Chysylltiadau Rhyngwladol gyda Syr Harold Walker (cyn-Lysgennad y DU i Irac) a Malcolm Harper (Cadeirydd, Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig, y DU), ym Mhrif Ddarlithfa'r Celfyddydau, Prifysgol Cymru, Bangor am 7.15pm nos Sadwrn 29ain Tachwedd.
Teithiodd aelodau o'r grup i Balesteina ym mis Hydref, ac edrychwn ymlaen at glywed adroddiadau llygad-dyst pan ddychwelant. Dyma lle mae'n rhaid i ni barhau i ganolbwyntio: ar y camweddau cyfoes sy'n cael eu cyflawni ym mhedwar ban y byd gyda chefnogaeth ein llywodraeth.

**Phil Steele**

**Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor (01248) 490 715 phil@tycerrig1.freeserve.co.uk**

### Menywod mewn Du Caerdydd

Menywod sy'n cwrdd i gynnal gwylnos ddistaw ar risiau'r Amgueddfa Genedlaethol, Parc Cathays rhwng 12 ac 1pm ddydd Sadwrn olaf pob mis. Gwisgwch ddu, os gwelwch yn dda!
**Cysyllter â: sian@derwen.demon.co.uk neu jill 01443 473592.**

### Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bro Emlyn

Aeth Grwp Bro Emlyn Group allan ar strydoedd Caerfyrddin ym mis Medi. Cynhaliwyd Ffair Arfau Amgen i brotestio yn erbyn Ffair y DSEi, ffair arfau fwyaf Ewrop a oedd yn cael ei chynnal yn Llundain ar yr un pryd. Roedd rhai o'u 'celfi llwyfan' yn cynnwys tuniau o ffa wedi eu haddurno i gynrychioli bomiau clwstwr. Daeth yr heddlu o hyd i dun o ffa roedd y grwp, drwy ryw amryfusedd, wedi ei adael ar eu hôl, a phenderfynu ei fod yn 'berygl posibl'; dyma gau'r ffyrdd o gwmpas a galw am y sgwad diddymu bomiau. Chwythwyd y tun ffa i'r entrychion mewn 'ffrwydrad rheoledig'! Roedd Celia Lang, un o'r grup, yn gofidio am yr anhrefn a achoswyd gan bennod y ffa, ond roedd rhaid iddi hithau gydabod fod y digwyddiad yn tanlinellu peryglon bomiau clwstwr a ollyngir gan luoedd yr UD a Phrydain i bobl yn Irac a gwledydd eraill.
Mae'r grwp yn cwrdd yn rheolaidd yng Nghastell Newydd Emlyn ac mae'n parhau i ymgyrchu'n fywiog, gan ddenu cefnogaeth eang yn y gymuned. Mae pynciau ymgyrchu yn cynnwys Hawliau Dynol, a'r sefyllfa yn y Dwyrain Canol ac yn ddiweddar, codwyd arian ar gyfer Cynghrair Menywod Irac.
**Cysylltydd: Jeremy Clulow (01239) 698 346 jeremy@webswonder.co.uk www.newcastle-emlyn.com/stopwar/**

### Grwp Heddwch a Chyfiawnder Aberhonddu

Mae Grwp Heddwch a Chyfiawnder Aberhonddu, sydd bob amser yn cyfuno bwyd a chwmni da gydag ymgyrchu, yn parhau i gwrdd yn rheolaidd yn Ystafelloedd Te'r Pererinion yng Nghlôs y Gadeirlan, Aberhonddu. Mae ganddo stondin fisol, sy'n casglu arian ar gyfer Cymorth Meddygol i Blant Irac, cynhaliodd Gyngerdd Cerddoriaeth Leol Fyd-eang yn Theatr Brycheiniog, ac mae'n trefnu siaradwyr ar fasnach deg, heddwch, hawliau dynol a phynciau gwleidyddol eraill.
**Cysyllter â: Mike Gatehouse (01874) 658 564 bpjg@keen.clara.co.uk**

### Grwp Cyfiawnder a Heddwch y Fenni

Mae digwyddiadau diweddar wedi cynnwys Gwledd Fyd-eang gyda thema Balestinaidd a chroesawu Jenny Gaiawyn (gweithredydd Trident Ploughshares a gwirfoddolwraig gyda mudiad International Solidarity) fel siaradwraig. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus gyda Clare Sain Ley Berry o Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru ar Swyddogaeth y CU ar Ddiwrnod y CU (Hydref 24ain).

**Cysyllter â: Katrina Gass (01873) 855 760**

### Fforwm Heddwch a Chyfiawnder Wrecsam

Mae'r grup yma'n gwneud baneri cyfamserol anferth a hynod effeithiol a'u harddangos mewn mannau cyhoeddus iawn! Mae'r faner ddiweddaraf, "THE FIRST CASUALTY OF WAR IS TRUTH" yn cael ei harddangos ar hyn o bryd ar bontydd dros ffyrdd yng nghylch Wrecsam. Mae'r grup yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus ac am 7.30pm ar 11eg Tachwedd, bydd Owen Hardwicke o Ganolfan Heddwch a Chyfiawnder Wrecsam yn annerch ar y Mudiad i Ddileu Rhyfel (Tw Cwrdd y Crynwyr, Heol Holt). Mae'r grwp hefyd wrthi'n helpu ceiswyr noddfa a ffoaduriaid yn Wrecsam. Mae llythyr newyddion ardderchog y grup ar gael yn rhad ac am ddim gan y cysylltydd.

**Cysyllter â (0845) 330 4505 wrexham@yahoo.com**

### Grwp Heddwch Aberteifi

Mae'r grwp wedi gwneud "peiriant heddwch", sef strwythur rhyw 6' o uchder sy'n arddangos naw slogan symudol ar bob dalen. Oherwydd fod y sloganau'n newid, bydd pobl yn aros i'r nesaf ddod i'r golwg wrth i'r peiriant droi'r ddalen.

**Cysylltwyr: Paul Hawkes 07812 711501 neu Philippa Gibson 01239 654561 philippa@maesymorfa.com**

### Clynblaid Atal y Rhyfel y Coed Duon

Bydd Owen English, aelod o CND Cymru o'r Coed Duon, yn ymddangos yn Llys y Goron, Caerloyw ar Dachwedd 12fed. Roedd ymhlith grup o brotestwyr yng ngwersyll yr Awyrlu Americanaidd yn Fairford a ddymchwelodd glwydi'r gwersyll yn ystod protestiadau cynharach yn erbyn y rhyfel.
George Galloway AS, ynghyd â Lindsay German (Clymblaid Atal y Rhyfel) a Leanne Wood AC oedd y siaradwyr mewn Cyfarfod Cyhoeddus ym mis Hydref – A Ryddhawyd Irac mewn Gwirionedd?

**Cysyllter ag: Ian Thomas: (01495) 225 326 neu huw_williams6@hotmail.com**

### Rhwydwaith Heddwch Aberystwyth/Myfyrwyr Aberystwyth yn erbyn y Rhyfel

Mae'r Rhwydwaith Heddwch yn cwrdd bob nos Fercher am 6.30pm yn y Y Cups ar gornel Heol Llanbadarn. Yn sgîl y gwrthdystiad a'r rali genedlaethol yn y dre ym mis Ebrill, mae'r Rhwydwaith Heddwch wedi gweithio'n galed i ganolbwyntio sylw ar y sefyllfa yn Mhalesteina ac Israel. Mae gweithredoedd uniongyrchol wedi cynnwys addurno pont â baner "Rhyddid i Balesteina" ddwyieithog mewn pryd i gyfarch y 'glas' a'u teuluoedd. Adeiladodd rhai aelodau wal yng nghanol y dre gyda blychau cardbord i roi argraff symbolaidd o sut beth yw bywyd yn y tiroedd Palestinaidd dan feddiant. Ynghyd â'r 'wal', roedd stondin stryd gyda dogfennau a mapiau, taflen i'w dosbarthu ac elorau a bagiau cyrff "a arddangoswyd ac a 'ddefnyddiwyd' mewn ffordd greadigol"!

**Cysylltwyr: Rhwydwaith Heddwch Aberystwyth: Olwen Davies (01970) 611994, Bettina Collingwood bettina@reprise.fsnet.co.uk neu Myfyrwyr Aberystwyth yn erbyn y Rhyfel, Lydia Bulmer 0781 307 9583 www.asaw.org.uk**

# Dim mwy o gelwydd rhyfel!

Arweiniodd CND Cymru a Chlymblaid Cymru i Atal y Rhyfel ymgyrchwyr heddwch o bob rhan o Gymru i'r gwrthdystiad yn Llundain yn galw ar lywodraethau Prydain a'r UD i ddiweddu ei goresgyniad ar Irac. Roedd baneri o Wrecsam, Bangor, Caerdydd, Abertawe, Casnewydd a rhannau eraill o Gymru yn amlwg ymhlith y dorf o ryw 100,000 a orymdeithiodd i'r rali yn Sgwâr Trafalgar.
Mae trethdalwyr Prydain yn cyfrannu at y £5 miliwn y dydd sy'n cael ei wastraffu bob dydd ar oresgyniad anghyfreithlon Irac, sef £5 miliwn nad yw'r cael ei wario ar ein hysgolion, ysbytai a gwasanaethau cyhoeddus. Dylai'r cyfrifoldeb am ailadeiladu Irac a throsglwyddo puer democrataidd i'w phobl fod yng ngofal y Cenhedloedd Unedig. Byddwn ni yng Nghymru yn parhau i ymgyrchu i gefnogi'r CU ac yn erbyn goresgyniad Irac.

**Ray Davies Is-gadeirydd CND Cymru**



heddweithredu:

**Cynnig Boreol EDM 1666: PROTESTIADAU GWRTH-RYFEL A DEFNYDDIO PWERAU GWRTH- FRAWYCHIAETH 10.09.03**

Adam Price, Mrs Ann Cryer, Paul Flynn, Andrew George


"Fod y Tw hwn yn nodi â phryder dwys ddefnydd o'r pwerau a ddarparwyd gan Ddeddf Brawychiaeth 2000 gan yr heddlu mewn protestiadau gwrth-ryfel yn ystod y gwrthdaro diweddar yn Irac; yn nodi ymhellach, â phryder dwys, fod defnyddio'r pwerau hyn i labelu protestwyr heddychlon cyfreithlon yn frawychwyr; yn condemnio defnydd adran 44 o Ddeddf Brawychiaeth 2000 yn erbyn protestwyr yn y ffair arfau yn Llundain ar y 9fed o Fedi; yn galw ar y Pwyllgor Materion Cartref i ymchwilio i ddefnydd yr heddlu o'r pwerau hyn i reoli protestwyr yn erbyn y rhyfel yn ystod y gwrthdaro diweddar yn Irac yn ogystal â phrotestwyr y ffair arfau; ac yn galw ymhellach ar y Llywodraeth i ailategu ei hymrwymiad i hawliau dynol sylfaenol drwy sefydlu comisiwn hawliau dynol annibynnnol, ac yn y dyfodol, caniatáu defnyddio deddfau gwrth-frawychiaeth yn erbyn unigolion sydd yn fygythiad gwirioneddol i ddiogelwch y Deyrnas Unedig yn unig, ac nid yn erbyn dinasyddion sy'n arfer eu hawl i brotestio'n heddychlon yn erbyn gweithredoedd eu llywodraeth."

**Da chi, danfonwch gopi o'r EDM yma at eich AS a gofyn iddo/iddi ei arwyddo.**

# Gorsaf pwer niwclear Wylfa problemau yn parhau

Cafodd gorsaf niwclear y Wylfa broblemau eto dros fisoedd haf 2003. Cauwyd un adweithydd ym mis Mai am ei archwiliad cynnal a chadw a gynhelir pob dwy flynedd. Canfuwyd marciau ar bibellau y tu mewn i'r llestr pwysedd ganol mis Gorffennaf, ac oherwydd hynny cauwyd yr ail adweithydd er mwyn archwilio'r pibellau cyfatebol. Bu'r orsaf yn segur am fis.

Wrth i un o'r adweithyddion gael ei ailgychwyn, ffrwydrodd pibell yn cario stem dan bwysedd uchel. Anafwyd gweithiwr a ddioddefodd losgiadau 15%. Fel arfer, ceisiodd rheolwyr yr orsaf sgubo'r cwbl o dan y mat. Nid craidd ymbelydrol yr adweithyddion yn unig sy'n peri pryder bellach ond cyflwr bregus y rhwydwaith o bibellau syn rhedeg allan o'r adweithyddion.




Ar diwedd Medi 2003, cyflwynodd achos i'r NII dros estyn oes weithredol y Wylfa am chwe blynedd arall o 2004. Mae'n amlwg bod BNFL yn awyddus i gael y cynnyrch trydan eithaf o adweithyddion y Wylfa er mwyn cael incwm i ariannu'r broses ddagomisiynu. Pryder mawr mudiad PAWB yw bod perygl i ddiogelwch y gweithwyr a'r cyhoedd o weithio adweithyddion y Wylfa mor galed. Ni fyddai'n syndod o gwbl pebai'r NII yn caniatau estyniad i oes y Wylfa, ond o ystyried y problemau diogelwch a gododd yno dros y ddeng mlynedd ddiwethaf, bydd hi'n anodd i BNFL gyrraedd y nod o redeg yr orsaf tan 2010. Synnwyr cyffredin yw hynny, ond mae trachwant BNFL am arian yn drech na synnwyr cyffredin. Amser a ddengys a fydd yr NII yn barod i weithredu mewn ysbryd annibynnol a chau'r orsaf hynafol hon unwaith ac am byth.

# Galwad am Gymru 'allblyg'

Yn y cyfnod cyn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ar Fai 1, 2003, ymunodd 24 sefydliad partner i herio ymgeiswyr o bob plaid i addo gweithredu i oresgyn anghyfiawnder cymdeithasol ar faterion o hawliau ceiswyr lloches a ffoaduriaid ac addysg ar ddinasyddiaeth fyd-eang i ganlyniadau'r rhyfel ag Iraq. Derbyniodd maniffesto'r ymgyrch glod gan bob plaid. Dywedodd y Gweinidog Dros Iechyd Jane Hutt, "mae'n debyg mai dyma un o'r dogfennau pwysicaf i'w cyflwyno gerbron y Cynulliad ac mae'n darparu cyfeiriad eglur i ni, Lywodraeth Cymru, fedru cyfrannu at y frwydr fyd-eang yn erbyn tlodi." Gellir archebu'r manifesto am ddim gan Swyddfa Amnest Cymru. Byddwn yn dal y llywodraeth sydd newydd ei hethol a'r aelodau i'w haddewidion drwy gychwyn lobi arall ym mis Mehefin.



**Cysllltu : Amnest Cymru: (02920) 375 610**
**wales@amnesty.org.uk**

# Arswyd niwclear

## Gwastraff niwclear

Mae pwyllgor rheolaeth gwastraff niwclear yn cael ei sefydlu gan y llywodraeth Brydeinig. Disgwylir y bydd hwnnw'n ceisio llwgrwobrwyo cymunedau i dderbyn 'tomen' ar gyfer gwastraff niwclear. Credir y bydd y 'tomenni' hyn uwch law'r ddaear, dan y ddaear neu hyd yn oed o dan y môr.

## Llongau tanfor niwclear

Bwriedir ailgychwyn ymgynghori ym mis Rhagfyr er mwyn ystyried ffyrdd o ddelio ag adweithyddion ymbelydrol mewn hen longau tanfor niwclear sy'n cael eu storio ar wyneb y dur yn Rosyth yn yr Alban ar hyn o bryd, a ger Devonport yn Lloegr. Mae gwahanol gynigion yn cael eu hystyried ond y cynllun mwyaf poblogaidd yw storio'r adweithyddion mewn storfa bwrpasol ger Loch Lomond yn yr Alban. Er mwyn cael unrhyw gymuned i dderbyn unrhyw gynigion o blaid storfa wastraff niwclear, ymddengys yn amlwg fod yn rhaid rhoi'r gorau i gynhyrchu gwastraff niwclear, a thrwy hynny, longau tanfor niwclear. Rhaid dod o hyd i safle lle gellir tynnu cydrannau'r adweithyddion o'r llongau tanfor a'u storio fel y gellir eu monitro a'u tynnu oddi yno os bydd angen, mewn storfeydd pwrpasol. Rhaid i ni. fodd bynnag, fynnu na lygrir unrhyw safloeoedd newydd â deunydd ymbelydrol.

## Trenau niwclear yng Ngogledd Cymru

Mae gwastraff niwclear yn cael ei gludo ar y rheilffordd yn gyson ar draws gogledd Cymru o orsaf buer niwclear Wylfa i Sellafield, drwy orsaf Crewe. Mae amserlen y trenau hyn ar gael ar 'Freightmaster' A trainspotter's guide, sydd ar gael ar y rhyngrwyd hefyd (www.freightmaster.uk.com). Ofnir y gallai'r ffaith fod y wybodaeth hon ar gael mor rhwydd wneud y trenau hyn yn darged i frawychwyr. Yn realistig, i atal y peryglon, rhaid atal cludo gwastraff niwclear; rhaid atal y diwydiant niwclear peryglus!

## British Energy

Rhaid i'r UE gytuno ar gynllun achub £5 biliwn ar gyfer y cynhyrchydd trydan niwclear yma, sy'n fethdalwr, cyn y gellir ei weithredu. Os caiff ei weithredu, yna bydd cynhyrchu trydan drwy buer niwclear yn parhau ond chi a fi, y trethdalwyr, fydd yn gyfrifol am dalu am ddadgomisiynu gorsafoedd ac am gostau storio'r holl wastraff niwclear a gynhyrchir gan y dadgomisiynu.

### heddweithredu

Os yw'r materion hyn yn destun pryder i chi, cysylltwch â'ch AC, AS, ASE, Cynghorydd Awdurdod Lleol i'w rhybuddio a gofyn iddynt i ymuno yn y galw am atal y diwydiant niwclear.

## Cynefin y Werin yn herio byd-ehangyddiaeth a militariaeth

Ym mis Hydref, cynhaliwyd diwrnod bywiog a diddorol i drafod materion yn ymwneud â byd-ehangyddiaeth a militariaeth a'r ffyrdd rydym wedi bod yn ymgyrchu ar y materion hyn yng Nghymru a sut y gallwn barhau i wneud. Gwrandawodd llawer o weithredwyr o grwpiau a mudiadau ledled Cymru ar Jill Evans ASE, Cadeirydd CND Cymru yn siarad am beryglon y Confensiwn Ewropeaidd arfaethedig sy'n cynrychioli cynnydd peryglus mewn pwerau milwrol i'r Undeb Ewropeaidd. Disgrifiodd wrth y cyfarfod hefyd ei phrofiadau yn Uwch-gynhadledd Weinidogol Sefydliad Masnach y Byd yn Cancun, Mecsico, lle cynhaliwyd trafodaethau hollbwysig mewn sesiynau caeëdig, gan anwybyddu'r angen am fod yn agored ac yn atebol i'r cyhoedd.

Ysbrydolodd sgwrs gan Mark Curtis, awdur 'Web of Deceit' (gweler yr Adolygiad, tud. 17) drafodaeth ddiddorol. Awgrymodd Mark y byddai trefnu democratiaeth ar lefel leol a chymunedol mewn ffyrdd newydd a phwrpasol yn effeithio, yn y man, ar gyrff "uwch i fyny" yn y gadwyn ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.

Cytunwyd y byddai Cynefin y Werin yn gweithio gydag CND Cymru a mudiadau eraill i gynhyrchu deunydd ar ddiwydiannau arfau a chynhyrchwyr cysylltiedig yng Nghymru, ac ar sefydliadau a hyfforddi milwrol yng Nghymru. Byddai'r deunydd hwn yn ddefnyddiol fel erfyn ymgyrchu, a gellid ei gyflwyno i'r cynrychiolwyr etholedig yn y Cynulliad Cenedlaethol i danlinellu ein pryder wrth sefydliad sy'n honni ei fod wedi ei seilio ar gynaliadwyedd amgylcheddol. Cytunwyd y dylid ymgysylltu â Mudiad y Fforwm Gymdeithasol, mudiadau Gwrthwynebu'r Rhyfel a Diwygio'r CU.

Mae digwyddiad cenedlaethol nesaf Cynefin y Werin ar Dachwedd y 15fed, ar "Y CU a'r Agenda Fyd-eang" ym Mhrifysgol Aberystwyth (gweler Dyddiadau Dyddiadur ar dudalen 16). Cynhelir cyfarfod ar Filitareiddio Cymru yn y flwyddyn newydd.

heddweithredu:

**Rhwydwaith o fudiadau ac unigolion yng Nghymru sy'n gweithio ynghyd i hyrwyddo heddwch, hawliau dynol, cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol a chydraddoldeb yw Cynefin y Werin. Er mwyn chwarae rhan neu ddysgu mwy am y mudiad, cysylltwch â Clare Sain Ley Berry: 02920 821 055 claresainleyberry@wcia.org.uk neu Ben Gregory (01286) 882 359 benica@gn.apc.org**

## pe...

...bai Blair heb ddatgan rhyfel yn erbyn Irac, a llwyddo i gael y senedd i gytuno wedi hynny, a fyddem ni erioed wedi sylweddoli yn union mor ormesol yw ein cymdeithas? Mae'n harweinydd wedi ei ethol, ydy, ond felly hefyd gannoedd o gynrychiolwyr eraill, ac mae'n system mor bendrwm fel y gall yr arweinydd, gan fwrw o'r neilltu bob syniad o gonsensws, gyhoeddi rhyfel yn ein henw, gwneud cytundebau a phenderfynu ar bolisi tramor, hyn oll heb orfod cyfeirio at y senedd. Mae arnom fawr angen mwy o ddemocratiaeth, ac mae'r rhyfel yn erbyn Irac yn tanlinellu'r angen hwnnw yn amlwg.


...bai Blair heb fynd â ni i ryfel, a fyddem ni erioed wedi sylweddoli mor gryf oedd teimladau pobl gyffredin yn erbyn rhyfel ym Mhrydain? Roedd y gwrthdystiad anferth hwnnw, brig bywiog gweladwy mynydd-rhew mudiad gwrth-ryfel Prydain, pan lenwodd mwy na miliwn strydoedd Llundain â'u baneri, yn galondid, er i'r gwleidyddion, wedi eu gyrru ymlaen gan "Agenda Fyd-eang Newydd", ddanfon ein lluoedd arfog p'run bynnag.

...na baem wedi gweld tystiolaeth o anesmwythyd y boblogaeth, colli ymddiriedaeth yn sydyn, y llithriad diweddar yn yr arolygon barn i'n harweinydd 'carismatig' gynt, a fyddem ni erioed wedi sylweddoli fod cred gyffredinol ym Mhrydain fod rheolau yn y gêm ddiplomyddol, ac nad ystyrir rhyfel yn erfyn cyfreithlon mewn polisi tramor? Mae pawb yn gofyn i Blair heddiw ble mae ei dystiolaeth fod arfau dinistr torfol yn bodoli yn Irac. Mae'n cael ei erlid, ac mae'n debyg y gwêl pobl fod hyn wedi dwyn anfri llwyr arno, ac y caiff ei orfodi i ymddiswyddo dros y mater hwn. Ac onid yw hynny'n dangos ein bod yn bobl wareiddiedig gyda rhai safonau, er fod holl bennod Irac yn dangos fod angen diwygio rheolau ein cymdeithas. Mae arnom angen diwygio, ac ni chaiff hunan-fudd sefyll yn ffordd y diwygio hwnnw. Fel pobl, mae gennym safonau.

...byddai mwy nag 20,000 o bobl yn dal i fod yn fyw.

**Diolch i Harry Davis, Kingston Peace News**

## Awyrennau milwrol yn hedfan yn isel




Adroddwyd fod awyrennau milwrol yn hedfan yn isel unwaith eto wedi gorfodi i awyren deithwyr sifil weithredu i'w hosgoi. Roedd yr awyren Aer Arann ATR42 yn cludo 32 o deithwyr ac yn hedfan rhwng Cork a Chaeredin ym mis Medi. Cael a chael oedd hi, dros y môr rhwng Belfast a'r Alban, yn ystod ymarferiad NATO. Fodd bynnag, hawliodd llefarydd ar ran y Weinyddiaeth Amddiffyn nad oedd yr awyren filwrol a oedd yn hedfan yn isel yn rhan o'r ymarferiad!

heddweithredu: **Peidiwch ag anghofio – cwynwch wrth y WA am bob enghraifft o hedfan isel. Gallwch ei ffonio ar (020) 7218 6 020. Sgrifennwch at eich AS ac adran iechyd yr amgylchedd eich cyngor lleol am yr arfer, a pheidiwch â derbyn 'Mae'n ddrwg gen i' fel ateb.**

'amddiffyn' taflegrau'r UD

# Peidiwch â dileu heddwch y gofod



**Cynlluniau ar gyfer 'tra-arglwyddiaeth sbectrwm llawn' yr UD yn parhau**

"Mae'r perygl o lenwi'r gofod ag arfau yn cynyddu. Mae ymdrechion ar y gweill i 'reoli a meddiannu'r gofod'" dywedodd cennad China, Hu Xiaodi wrth Gynhadledd y CU ar Ddiarfogi ar ddiwedd mis Gorffennaf. Roedd yn cyfeirio'n bennaf at gynlluniau'r UD ar gyfer 'Amddiffyn' Taflegrau. Mae'r sylwadau'n atgyfnerthu dadleuon mudiadau ymgyrchu sydd wedi nodi peryglon milwreiddio'r gofod sy'n bygwth sefydlogrwydd rhyngwladol.

**Cythruddo**

Yn ei adroddiad blynyddol diweddar i'r Gyngres ar rym milwrol China, cyfaddefodd Ysgrifennydd Amddiffyn yr UD mai un o'r prif resymau mae China'n cynyddu ei harfogaeth arfau niwclear yw am ei bod am gynnal 'hygrededd' ei harfau niwclear yn wyneb Amddiffyn Taflegrau'r UD.

Mae Amddiffyn Taflegrau eisoes yn cythruddo gwledydd i gynyddu ei harfogaeth fel a ragwelwyd, a gallai'r twf yn arfogaeth niwclear China arwain ar gynnydd cyffelyb yn arfogaethau India, Pakistan a Gogledd Korea .

**Celwydd**

Pam mae cymaint o wledydd, sefydliadau ac unigolion yn poeni ynglwn ag Amddiffyn Taflegrau? Yn y bon, am fod y gair 'Amddiffyn' yn gelwydd. Mewn gwirionedd, mae 'Amddiffyn' Taflegrau yn rhan hanfodol o athrawiaeth 'tra-arglwyddiaeth sbectrwm llawn' llywodraeth Bush – tra-arglwyddiaethu dros dir, môr a gofod – a chyrchoedd milwrol rhag-ataliol. Mae Amddiffyn Taflegrau'r UD yn cynnig sawl talp o gig ideolegol Gweriniaethol yn yr un cawl.

**Bygythiadau**

Mae bygythiad hyn i heddwch a sadrwydd yn y dyfodol yn anferthol. Ym mis Gorffennaf, ymatebodd China a Rwsia i un bygythiad drwy alw am foratoriwm rhyngwladol ar leoli arfau yn y gofod nes y gellir negydu Cytundeb newydd – Cytundeb Atal Ras Arfau yn y Gofod. Dydy'r UD ddim eisiau gwybod.

Mae'r llywodraeth Brydeinig yn glynu'n gyndyn wrth ei pholisi cyfredol o gefnogi holl amcanion polisi tramor yr UD ac mae wedi cefnogi Amddiffyn Taflegrau yr UD. Ym mis Ionawr eleni, rhoddodd y llywodraeth Brydeinig ganiatâd i'r UD ddefnyddio Cyfleuster Radar Rhybudd Cynnar o Daflegrau Balistig 'RAF' Fylingdales yng ngogledd swydd Efrog ar gyfer y system. A does dim amheuaeth, cyn gynted ag y gofynna'r UD am gael defnyddio cyfleusterau trosglwyddo lloeren ofod canolfan 'RAF' Menwith Hill (hon hefyd yn ganolfan UD, yng ngogledd swydd Efrog hefyd), cânt ganiatâd ar gyfer hynny hefyd.

**Arian mawr**

Mae Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn, Geoff Hoon, wedi arwyddo cytundebau arbennig cyfrinachol gyda'r UD er mwyn i ddiwydiant arfau Prydain gael chwarae rhan yn y system. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn mor frwd o blaid hyn nes eu bod newydd agor 'Rhith Ganolfan Amddiffyn Taflegrau'r DU' i helpu i ddatblygu rôl allweddol i gwmnïau arfau Prydeinig yn y project, rhoi rhan flaenllaw i Brydain mewn Amddiffyn Taflegrau, darparu gwybodaeth ar gyfer penderfyniadau polisi ac adeiladu 'tîm Amddiffyn Taflegrau Prydeinig'. Mae'r rhai sy'n gweithio yn y 'Ganolfan Amddiffyn Taflegrau' yma yn cynnwys swyddogion y Weinyddiaeth Amddiffyn a chorfforaethau arfau (Stasys, DSTL, Insys, BAe Systems, AMS, MBDA a Qinetiq).

**Geiriau gwag**

Mewn ateb i gwestiwn yn Nhw'r Cyffredin ym mis Mehefin, dywedodd y Gweinidog Gwladol dros Amddiffyn, Mr. Ingram, fod *'Ymwneud y Deyrnas Unedig mewn gwaith cydweithredol gyda'r Unol Daleithau ar amddiffyn taflegrau, yn cynnwys defnyddio RAF Fylingdales i ddibenion amddiffyn taflegrau, yn gwbl gyson ag ymrwymiadau'r DU o dan Erthygl VI o'r Cytundeb ar Atal Amlhad Arfau Niwclear (CAA).'*

Mynnai *'Nid yw'r llywodraeth wedi dod i benderfyniad ynglwn â phwrcasu neu osod systemau amddiffyn taflegrau. Nid yw'r Unol Daleithau wedi gwneud unrhyw gais i gael lleoli taflegrau ataliol yn y Deyrnas Unedig fel rhan o'i system amddiffyn taflegrau'.*

**Alaska**

Er fod seneddwyr Democrataidd wedi beirniadu'r holl raglen NMD yn Senedd yr UD, mae gwaith adeiladu wedi cychwyn i godi sawl silo daflegrau yn Fort Greeley, Alaska. Mae gwaith adeiladu gwerth $500 miliwn llywodraeth Bush yn cynnwys taflegrau ataliol blaen-cad, wedi eu gyrru gan rocedi, i 'amddiffyn' yn erbyn ymosodiad gan daflegrau balistig.

Ym mis Hydref, cynhaliwyd gwrthdystiad a drefnwyd ar y cyd rhwng CND Swydd Efrog a'r Ymgyrch dros Atebolrwydd Gwersylloedd Americanaidd yn Menwith Hill – cartref ysbïo, cynllunio rhyfeloedd, ymladd rhyfeloedd a 'star wars'.

Dywedodd llefarydd ar ran CND Swydd Efrog: *'Mae'r UD ac eraill wir am weld arfau i fyny acw, ac mae nhw wir am ymladd o'r gofod ac yn y gofod. Rhaid i ni weithredu nawr i bwysleisio'r peryglon ac atal yr holl beth.'*

heddweithredu:

**Mwy o wybodaeth: www.takethepeace.org neu www.yorkshirecnd.org.uk neu Yorkshire Campaign for Nuclear Disarmament, 22 Edmund Street, Bradford BD5 0BH, Swydd Efrog, Lloegr (01274) 730795 e-bost: info@yorkshirecnd.org.uk**

**Sgrifennwch at eich Aelod Cynulliad – mae hwn yn fater sy'n effeithio ar economi, diogelwch ac amgylchedd Cymru a dylai fod yn destun pryder i'r rhai sy'n ein cynrychioli yn ein Cynulliad.**

**Sgrifennwch at eich AS yn gofyn iddi/iddo gefnogi pob ymgais i atal y cynnydd brawychus yma yn nhra-arglwyddiaeth filwrol yr UD dros yr holl fyd, a fydd yn achosi amlhad niwclear ac yn bygwth heddwch a diogelwch y byd, a galw ar y llywodraeth Brydeinig i wrthod cydweithredu.**

# Tri pheth i'w gwneud â bom niwclear yn eich poced

## 1.Hawliau dynol? goresgyniad annynol

Ers iddynt oresgyn Iraq, cyhuddwyd lluoedd milwrol yr UD/Prydain o lawer o dramgwyddau yn erbyn hawliau dynol. Mae "mwyfwy o adroddiadau am ddynion, menywod a hyd yn oed plant Iraci'n cael eu llusgo o'u cartrefi liw nos gan filwyr yr UD neu eu cipio oddi ar y stryd a'u dwyn, mewn mwgwd a gefynnau, i wersylloedd carchar o gwmpas y brifddinas" *(The Times 9/07/02)*. Mae miloedd wedi cael eu cadw yn y ddalfa heb gyhuddiad, wedi 'diflannu' i bob pwrpas, yn cynnwys plant mor ifanc ag unarddeg oed.

Mae Amnest Rhyngwladol wedi adrodd am:

- Wrthod gadael i garcharorion weld cyfreithwyr neu deulu am gyfnodau maith – weithiau am wythnosau lawer.
- 'Triniaeth greulon, annynol neu ddiraddiol' yn cynnwys diffyg lloches, dur a chyfleusterau ymolchi.
- Honiadau o arteithio, pobl yn cael eu lladd yn y ddalfa, a lladd pobl yn anghyfreithlon mewn gwrthdystiadau.
- Defnydd eithafol o drais wrth chwilio tai, dinistrio a dwyn eiddo, heb gyfiawnhad nac iawndal.
- Diffyg atebolrwydd cyfreithiol, iawndal neu geisio unioni cam wedi i bobl ddioddef camdriniaeth.

Mae Lleisiau yn yr Anialwch wedi cynhyrchu cerdyn post y gall unigolion ei ddanfon at Tony Blair sy'n mynnu fod llywodraethau'r UD a Phrydain yn trin pobl Irac a'u diwylliant â pharch, yn ufuddhau i gyfraith ryngwladol ar hawliau dynol, ac y dylai'r holl garcharorion rhyfel a sifiliaid sydd yn y ddalfa heb eu cyhuddo gael eu gollwng yn rhydd yn ddiymdroi.

**Am gopïau, danfoner at: Voices in the Wilderness, 5, Caledonian Road, Llundain N1 9DX neu voices@voicesuk.org www.voicesuk.org**

## 2. Sgandal Guantánamo yn parhau

Ym mis Mawrth 2003, dwedodd yr Ysgrifennydd Gwladol Colin Powell mai "gwledydd sy'n fawr eu parch at hawliau dynol sydd debycaf o gyfrannu tuag at ddiogelwch rhyngwladol" ac eto mae llywodraeth y DU yn dal i anwybyddu pryderon rhyngwladol ynglwn â'r carcharorion ym Mae Guantánamo ar ynys Cuba. Mae mwy na 650 o 'garcharorion' yn cael eu cadw yn y ddalfa gan yr Unol Daleithau o dan amodau sydd yn artaith ynddynt eu hunain. Ni ddygwyd yr un cyhuddiad yn eu herbyn, maent yn cael eu cadw o dan amodau israddiol, heb weld eu teuluoedd ers dwy flynedd, heb unrhyw ddisgwyliad o gael achos llys teg ger bron comisiynau gweithredu milwrol sydd â'r puer i ddyfarnu'r y gosb eithaf.

Mae Amnest Rhyngwladol wedi galw sylw at y carchariad amhenodol heb na chyhuddiad nac achos llys, caethiwo mewn celloedd bychain am hyd at 24 awr y dydd, gefynnau am y cyfnod byr o ymarfer corfforol a ganiateir, creulondeb cadw perthnasau'n poeni am dynged eu ceraint, croesholi dro ar ôl tro heb bresenoldeb cyfreithwyr, a'r posibilrwydd o ddienyddio ar ôl achosion annheg heb hawl i apelio. Gofynna'r mudiad hawliau dynol: *"Oes unrhywun yn synnu fod y gymuned ryngwladol yn gofyn cwestiynau difrifol ynglwn ag ymrwymiad UDA i hawliau dynol?"*

Mae Amnest wedi dweud dro ar ôl tro fod yr UD yn torri'r gyfraith ryngwladol ac yn tramgwyddo safonau yn y mater hwn, yn cynnwys yr egwyddor y dylai carcharorion allu herio cyfreithlondeb eu carchariad.

Mewn ymateb i bryderon Amnest ynglwn â'r carcharorion yn Guantánamo, ymateb llefarydd y Tw Gwyn, Ari Fleischer oedd ei fod yn diystyru'n gwyn fel un heb deilyngdod.



graffig:charlotte turtle

Mae plant cyn ifanced â 13 ymhlith carcharorion Guantánamo. Dywedodd uwch lefarydd ar ran y Pentagon, "er gwaethaf eu hoed, mae'r rhain yn bobl beryglus dros ben", yn rhan o "dîm o frawychwyr". Mae mwy na 30 ymgais i gyflawni hunanladdiad wedi bod yn y gwersyll carchar.

**Am fwy o wybodaeth cysyllter ag Amnest Rhyngwladol (02920) 375 610 wales@amnesty.org.uk Amnest Rhyngwladol, 5ed Llawr, Adeiladau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF10 1AT www.amnesty.org**

## 3.Preifateiddio cudd

Meddai'r Dirprwy Ysgrifennydd Amddiffyn, Paul Wolfowitz, heb flewyn ar ei dafod:

"Ni fydd swyddogaeth i'r Cenhedloedd Unedig yn y gwaith o sefydlu llywodraeth dros-dro yn Irac. Bydd rheolaeth yr UD yn para rhyw chwe mis, neu'n hwy na hynny … mae'n debyg." A phan gaiff pobl Irac gyfle i ddewis llywodraeth o'r diwedd, bydd yr holl benderfyniadau allweddol ynglwn â dyfodol eu gwlad wedi eu gwneud gan eu goresgynwyr.

Yr enw a roddir fel arfer i'r broses o gael yr holl isadeiledd yma i weithio yw 'ailadeiladu'. Ond mae cynlluniau America ar gyfer dyfodol Irac yn mynd yn llawer pellach na hynny. Mae'r wlad yn cael ei thrin fel llechen wag y gall neo-ryddfrydwyr mwyaf ideolegol Washington ddylunio eu breuddwyd arni – gwlad wedi ei phreifateiddio'n llwyr, dan berchenogaeth dramor yn agored i fusnes.

Mae'r cytundeb rheoli gwerth $4.8 miliwn ar gyfer y porthladd yn Umm Qasr eisoes wedi mynd i gwmni Americanaidd. Mae Asiantaeth yr UD dros Ddatblygiad Rhyngwladol wedi gwahodd cwmnïau trawswladol yr UD i gynnig ar gyfer popeth, o ailadeiladu ffyrdd a phontydd i argraffu gwerslyfrau. Faint gymer hi i'r rhain droi'n gytundebau tymor-hir am wasanaethau dur, cludiant, ffyrdd, ysgolion a theleffonau wedi eu preifateiddio? Pryd mae ailadeiladu'n troi'n breifateiddio cudd?

Yr un peth sydd ar goll yn llwyr o'r drafodaeth hon yw pobl Irac. Efallai fod y rheini – pwy a uyr? – am ddal gafael ar rai o'u hasedion. Bydd iawndal anferthol yn ddyledus i Irac pan ddaw'r bomio i ben, ond heb unrhyw broses ddemocrataidd wirioneddol, nid iawndal, ailadeiladu neu adfer sy'n cael ei gynllunio. ond lladrad.

**Naomi Klein, awdur 'No Logo' www.thenation.com**

# Ar strydoedd Baghdad

**Tariannau dynol o Gymru yn dychwelyd i Irac i helpu i adfer hawliau dynol plant y strydoedd**

Ym mis Hydref, dychwelodd dau weithredydd heddwch o Gymru a dreuliodd amser yn Irac ym mis Chwefror a mis Mawrth eleni, i helpu'r nifer gynyddol o blant wedi eu trawmateiddio sy'n byw ar strydoedd Baghdad.

Pan fu Helen a Kevin Williams o Gasnewydd yn Baghdad yn gynharach eleni, aethant i ymweld ag ysgolion, ysbytai a meithrinfeydd; cymryd rhan mewn gwrthdystiadau heddwch fel gorymdeithiau, crogi baneri, a gwylnosau; treuliasant lawer o amser mewn marchnadoedd a siopau te yn cwrdd ag Iraciaid cyffredin a siarad â nhw. Gallasant deithio'n ddilyffethair a heb neb i'w gwarchod, gan ymweld â Mosul, Kerbalat, Babilon a Basra (tra'r oedd cyrchoedd awyr yn digwydd). Dewisodd y ddau fod yn 'darian' i waith puro dur yn Baghdad a oedd ar y pryd yn darparu dur yfed diogel ar gyfer 3 miliwn o bobl, a lle'r oedd y Groes Goch wrthi'n llenwi sachau argyfwng o ddur.

heddweithredu:
**Er mwyn cyfrannu, danfonwch sieciau'n daladwy i 'Our Home – Iraq' at Flwch SP 70, Casnewydd NP20 5XX neu 23 Warwick Way, Croxley Green, Rickmansworth, Hertfordshire WD3 3SB neu cysylltwch â'r cyfeiriadau hyn am fwy o wybodaeth, neu gweler http://ourhome-iraq.blogspot-com Mae taflen ffacs ynglwn â'r project ar gael, cysyllter â Jill Stallard (01550) 750 260.**

Y tro yma, mae'r pâr yn dychwelyd i helpu plant y strydoedd yn Irac. Roeddynt wedi cwrdd â rhyw ugain o'r plant hyn a oedd yn gweithio ar y strydoedd yn glanhau sgidiau neu wneud 'gwaith' arall fel gwerthu hancesi papur. Byddai'r plant yn dychwelyd adref bob nos wedi ennill ychydig o arian i helpu eu teuluoedd i brynu bwyd atodol i'r ddogn fwyd gan Raglen 'Olew am Fwyd' y CU drwy law'r llywodraeth.



**Helen (llinell cefn trydedd o'r de) yn ysgol feithrin ym Mhagdhad cyn Mawrth 20fed.**

Cafodd y Williamsiaid, yn sgîl ymosodiad yr UD a Phrydain ar Irac, gyda chartrefi plant amddifad wedi cael eu dinistrio, eu cau, neu'n methu gweithredu, rhieni wedi eu lladd a chartrefi wedi eu chwalu, fod mwy na mil o blant bregus yn byw ar strydoedd Baghdad. I liniaru eu poen, mae'r plant wedi troi at anadlu glud a chymryd alcohol a hashish – rhywbeth na welodd y Williamsiaid o'r blaen. Mae hanesion ar bob tu am blant yn cael eu camdrin – eu treisio, eu llofruddio, eu herwgipio a'u bygwth.

Mae'r Williamsiaid yn helpu i dalu am yr un cartref plant amddifad sy'n dal i fod ar agor. Doedd staff y cartref ddim yn cael eu talu ac roeddent yn bwydo'r 105 o blant â'u bwyd eu hunain. Rhentodd y pâr adeilad arall hefyd, i gynnig lloches i'r plant oddi ar y strydoedd yn ystod y nos, yr adeg fwyaf peryglus. Lle diogel i gysgu ac efallai un pryd o fwyd y dydd yw'r lleia mae'r plant hyn yn ei haeddu ac sydd arnynt ei angen.

# Llongau tanfor niwclear yn Lerpwl?

Datgelwyd fod cynlluniau ar y gweill i wneud Dociau Lerpwl yn gartref unwaith eto i longau tanfor niwclear (angorfa-Z). Mae Cyngor Dinas Southampton newydd gymeradwyo cynlluniau ar gyer angorfa-Z gyffelyb yn Nociau Southampton yn ne Lloegr.

Byddai cam o'r fath yn Lerpwl yn ôl pob tebyg yn cymryd o leiaf ddwy flynedd i ddigwydd gan y bydd rhaid cytuno ar gynlluniau gyda'r holl wasanaethau brys yn unol â deddfwriaeth Ewropeaidd. Rhaid ymgynghori'n llawn â'r cyhoedd hefyd. Ataliwyd ymweliadau gan longau tanfor ag angorfeydd-Z yn Lerpwl, ac yng Nghymru, Caerdydd ac Abertawe ar ddiwedd y nawdegau oherwydd fod y llongau tanfor "ar wasanaeth mewn man arall". Mae llawer o bobl yn dal i gofio'r tân trychinebus bron ar fwrdd llong danfor niwclear yn Nociau Lerpwl yn y chwedegau. Cafodd presenoldeb llongau ag adweithyddion niwclear mor agos at ganolfannau poblogaeth mawr ei gondemnio'n hallt gan y gwasanaeth tân a phobl leol. Mae gweithredwyr gwrth-niwclear ac amgylcheddol yn Lerpwl yn barod i ymgyrchu yn erbyn caniatáu i longau tanfor ymweld â Lerpwl eto.

Yn Southampton, mae ymgyrchwyr ac arbenigwyr niwclear a chyfreithiol yn ofni na fyddai'r cynlluniau a gymeradwywyd gan Gyngor y Ddinas yn ddigonol i amddiffyn y cyhoedd yn ne Lloegr pe digwyddai 'gollyngiad ymbelydrol mawr neu ymosodiad gan frawychwyr'. Maent yn herio'r Llynges i gyfiawnhau gosod pobl leol mewn perygl ymbelydrol.

Mae angen i ni yng Nghymru gadw llygad barcud ar hynt a helynt y datblygiadau hyn yn Southampton a chefnogi ymgyrchwyr yn Lerpwl drwy herio awdurdodau Glannau Mersi cyn iddynt benderfynu ar unrhyw gamau a allai fod yn drychinebus. Nid yw ymbelydredd yn parchu ffiniau, a byddai Cymru gyfan mewn perygl; at hynny, mae'r cynlluniau'n tanlinellu faint o longau tanfor yn rhedeg ar ynni niwclear a chario arfau niwclear sydd ym Môr Iwerddon. Bydd CND Cymru yn holi'r awdurdodau yng Nghaerdydd ac Abertawe hefyd i ddarganfod a oes cynlluniau tebyg ar y gweill ar gyfer porthladdoedd Cymru.

heddweithredu:
**Os ydych yn byw ar arfordir Cymru neu'r cyffiniau, cysylltwch â'ch cynghorydd lleol, awdurdod cynllunio, AC neu AS i ofyn a oes unrhyw gynlluniau'n bod i ddarparu angorfeydd-Z ar gyfer llongau tanfor niwclear mewn porthladdoedd lleol. Os ydych yn byw yng ngogledd-ddwyrain Cymru, cysylltwch â'ch cynrychiolwyr etholedig a'r Adran Gynllunio Argyfwng (llywodraeth leol) i fynegi eich pryder ynglwn â chynlluniau Lerpwl. Cysylltwch ag CND Cymru os oes gennych unrhyw wybodaeth neu os oes arnoch ei heisiau.**

# Gweithredwyr o Gymru'n dychwelyd i Balesteina

Ymadawodd Ray Davies a Myrla Eastland o CND Cymru ac Ymgyrch Cydgadernid Palesteina Cymru am Balesteina ar Dachwedd 1af i ymuno â gweithredwyr heddwch rhyngwladol o Balesteina, Israel ac o bedwar ban y byd. Byddant yn helpu i fedi'r cynhaeaf olewydd, ac yn ymuno yn y gweithredu uniongyrchol di-drais byd-eang yn erbyn y wal apartheid, sy'n bygwth carcharu holl boblogaeth Palesteina a dinistrio pob gobaith o heddwch â chyfiawnder yn y Dwyrain Canol.

# Nawr, beth am air bach ynglwn â brawychiaeth

## MUNUD O DDISTAWRWYDD I BAWB?


**Os ydy golygfeydd erchyll Medi'r 11eg 2001 yn dal i'ch peoni, beth am gynnal munud o ddistawrwydd er cof am y 3,000 o fywydau sifiliaid a gollwyd yn y cyrchoedd ar Efrog Newydd, Washington DC a Pennsylvania.**

### Tra'n bod ni wrthi, beth am:

- 10 munud o ddistawrwydd i'r 300,000 o Japaneaid a laddwyd yn Hiroshima a Nagasaki gan y bomiau atomig a ollyngwyd gan UDA ym mis Awst 1945 ac ychydig eiliadau i gofio'r miloedd sy'n dal i farw bob blwyddyn o ganlyniad i gynnyrch ymbelydrol y bomiau hynny, a 'r rhai sy'n dal i gael eu cynhyrchu a'u profi.
- 10 munud o ddistawrwydd er cof am yr holl rai a laddwyd yn Vietnam, rhywbeth nad yw'r Americaniaid yn hoffi ei gydnabod. Aeth yr UD i gyfandir arall filoedd o filltiroedd i ffwrdd a llosgi degau o filoedd o werin gyffredin Vietnam gyda napalm.
- 10 munud o ddistawrwydd i'r 200,000 o Iraniaid a laddwyd gan filwyr Iraci gan ddefnyddio arfau ac arian a roddwyd i'r Saddam Hussein ifanc gan lywodraeth yr UD cyn i'r eryr mawr droi ei holl nerth yn erbyn Irac.
- 5 munud o ddistawrwydd er cof am y Rwsiaid a'r 150,000 o Afghaniaid a laddwyd gan filwyr Afghani wedi eu cefnogi a'u hyfforddi gan y CIA.
- 5 munud ar gyfer dioddefwyr y gyflafan yn Panama ym 1989, lle'r ymosododd lluoedd Americanaidd ar bentrefwyr a gadael 20,000 o bobl Panama yn ddigartref a miloedd lawer yn farw.
- 3 munud o ddistawrwydd ar gyfer y 130,000 o sifiliaid Iraci a laddwyd ym 1991 ar orchymyn yr Arlywydd Bush yr Hynaf. Cymerwch ennyd arall i gofio sut y dathlodd yr Americaniaid gan floeddio a chymeradwyo yn y strydoedd.
- 60 munud ar gyfer y miliynau o blant fu farw oherwydd embargo UDA ar Irac a Cuba.
- 60 munud i'r cannoedd o filoedd a lofruddiwyd yn greulon ym mhedwar ban y byd mewn rhyfeloedd cartref a coups d'etat a noddwyd gan yr UD (Chile, yr Ariannin, Uruguay, Bolivia, Guatemala, ac El Salvador, i enwi ond rhai).
- Gobeithio y bydd yr Americaniaid o'r diwedd yn dechrau deall eu bregusrwydd, a'r ymosodiadau a'r trasiedïau eraill maent wedi eu hachosi ym mhedwar ban y byd. Roedd y meirw mewn mannau eraill yn brifo lawn cymaint â'r meirw yn y Ddau Dur, efallai hyd yn oed yn fwy!
- Beth am y 560,000 o blant Irac (yn ôl ffigurau cyfredol y CU) a fu farw o ganlyniad uniongyrchol i'r sancsiynau yn erbyn Irac a gefnogwyd gan UDA?
- A beth am y genhedlaeth newydd o blant Irac mae eu bywydau'n cael eu difetha ar hyn o bryd oherwydd ymborth annigonol, diffyg moddion ac addysg israddol oherwydd sancsiynau a gefnogodd yr UD, dinistr isadeiledd Irac gan ymosodiad yr UD/Prydain ar Irac, a'r annhrefn llwyr o ganlyniad i hynny?
- Gadewch i ni gofio'r 9,000 o sifiliaid (yn ôl yr amcangyfrif hyd yn hyn) a laddwyd yn uniongyrchol gan ymosodiad yr UD ar Irac eleni, y mwy na 13,500 o filwyr Iraci dan orfodaeth, yr 17 gohebydd a'r 25 o weithwyr NGO/CU/elusen, yr holl rai a dreisiwyd ac a anafwyd o ganlyniad i'r ymosodiad hwn, a'r holl rai y difethwyd eu bywydau – drwy orchymyn llywodraethau'r UD a Phrydain.

### Nawr, Beth am Air Bach ynglwn â Brawychiaeth ?

**Diolch i Mike Gatehouse, Grwp Heddwch a Chyfiawnder Aberhonddu, Iraq Body Count (www.iraqbodycount.net) a 'The Other September 11th Chileans in Australia': www.ce-look.com/11chile1973 (Medi'r 11eg oedd dyddiad y coup milwrol yn Chile ym 1973 hefyd). Mae Heddwch a Chyfiawnder Wrecsam yn galw am gymorth er mwyn gwneud baner Cyfrif Cyrff Irac i'w chrogi oddi ar bontydd yn Wrecsam – i helpu, cysyllter â Genny Bove (0845) 330 4505 neu wrexhamsaw@yahoo.com**



# Profion arfau yn yr Alban -

## tanio anghyfeillgar iawn

Mae'r llywodraeth Brydeinig wedi adnewyddu cytundeb sy'n caniatáu i fyddin yr UD ddefnyddio maes tanio Dundrennan ger Kirkcudbright yn Dumfries a Galloway, yn ne'r Alban. O ganlyniad, bydd profion gyda gwn electromagnetig (EM) ar y meysydd tanio milwrol oherwydd, yn ôl Adran Amddiffyn yr UD, yr Alban 'yw'r unig le addas i gynnal y fath brofion'. Credir y bydd y cytundeb yn caniatáu saethu'r gwn electromagnetig ar buer llawn. Mae'r gwn EM yn saethu ffrwydron twngsten yr UD ar gyflymdra o 7,500 milltir yr awr, ac mae'n cael ei ystyried fel 'mesur hanner ffordd' hyd oni all yr UD 'berffeithio' arfau laser i'w defnyddio gan gerbydau arfog ac yn y gofod.

Mae gwleidyddion yr wrthblaid yn honni fod y llywodraeth Brydeinig wedi cadw'r cynlluniau profion arfau oddi wrth y cyhoedd. Mae rhai wedi galw ar y Weinyddiaeth Amddiffyn i atal y profion hyd y gellir cynnal ymgynghoriad lleol a thrafod y mater yn Senedd yr Alban, er mai mater i Westminster yw mater 'amddiffyn'. Gobeithir codi'r mater yn Nhw'r Cyffredin. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn mynnu mai dim ond 'parhau â'r ymchwil' yw'r project, a dywed fod y profion wedi bod yn hysbys i'r cyhoedd ers i'r UD ddechrau arbrofi â thechnoleg lansio electromagnetig yn Dundrennan yn y 1990au cynnar.


Mae'r maes tanio milwrol yn Dundrennan wedi bod yn ffocws i brotesiadau gan ymgyrchwyr sy'n gynddeiriog ynglwn â'r ffaith fod miloedd o ffrwydron 'Charm' yr UD, â blaenau wraniwm hesb (WH), wedi cael eu saethu yn ystod profion o'r maes tanio i mewn i Solway Firth, er y gwadwyd yn swyddogol fod hyn yn peri unrhyw niwed i'r amgylchedd. Mae'r maes tanio ei hun yn frith o danciau brwydr wedi eu saethu, ffrwydron na ffrwydrodd ac na nodwyd eu safle, shrapnel, sabotiaid ymbelydrol, hen blatiau profion WH a llwch WH.

Mae llawer o bobl yn gofyn: pam arbrofi ag arfau'r UD yn yr Alban? Sut *all* hi fod mai'r Alban yw'r unig le addas ar gyfer y fath brofion? Ai'r gwirionedd yw na fyddai rhai o fanylion y profion arfaethedig – fel y posibilrwydd o lygredd wrth i'r Wraniwm Hesb ollwng - yn dderbyniol o dan ddeddfau'r UD?

Datgelwyd fod gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ddiddordeb yn y gwn EM hefyd a'i fod yn cael ei ran-ddatblygu gan British Aerospace. Mae technoleg EM wedi cael ei datblygu hefyd ar gyfer "System Amddiffyn Taflegrau Genedlaethol" yr UD i 'saethu taflegrau'r gelyn o loerennau'.

trident ploughshares

# Gweithredu yn yr Alban, Lloegr a Gwlad Belg




**Mae'r gweithredu uniongyrchol i ddiarfogi'r system arfau niwclear Brydeinig mewn modd di-drais a chwbl atebol yn mynd rhagddo ag angerdd ac arddeliad. Mae achosion llys yn deillio o'r gweithredoedd hyn yn mynd yn eu blaen hefyd.**

Yn yr haf, cynhaliwyd gwersylloedd diarfogi yn Lloegr, yn y Sefydliad Arfau Atomig yn Aldermaston lle cynhyrchir ergydion niwclear ar gyfer taflegrau Trident) ac yn yr Alban, yn Coulport, lle mae taflegrau niwclear Trident yn cael eu storio. Ym mis Hydref, cynhaliwyd gwersyll diarfogi rhyngwladol pum-diwrnod yn Devonport, Plymouth yn Lloegr. Y nod oedd iddi fod yn ffocws ar gyfer gweithredu uniongyrchol yn erbyn y gwaith ailffitio ar y llongau tanfor Trident yn y dociau. Restiwyd unarddeg gweithredydd heddwch, naw ohonynt ar eu ffordd i Ddociau Devonport, a chafodd y rheini eu cyhyddo o 'Gynllwynio i achosi niwsans cyhoeddus'. Cafodd y ddau arall eu restio tra'n cynnal gwarchae ar un o glwydi'r dociau. Meddai'r gweithredydd heddwch Ivor Bernie, "Unwaith eto mae'r llywodraeth yn gwastraffu ei hadnoddau ar restio gwrthdystwyr heddychlon sydd wrthi'n gwneud eu dyletswydd, yn hytrach na'u helpu i ddiarfogi arfau dinistr torfol anghyfreithlon y DU."

Dwedodd Marcus Armstrong, o Trident Ploughshares: "Mae'r gwaith ailffitio Trident yn beryglus ofnadwy oherwydd gallai ymbelydredd ddianc neu gallai damwain neu ymosodiad gan frawychwyr ddigwydd a fyddai'n berygl arswydus i bob copa walltog yn byw o fewn 30 milltir i Plymouth. A hyn oll yng nghanol dinas fawr, boblog, sy'n gartref i fwy na 270,000 o ddinasyddion."

Ym mis Medi, restiwyd dau weithredydd Trident Ploughshares ar ôl dringo wal amgylchynol yn nociau'r llynges yn Devonport. Roedd Sue Brackenbury, o Wersyll Heddwch Faslane yn yr Alban a Matt Bury o Taunton, Lloegr ar eu ffordd i ddiarfogi'r llong danfor niwclear HMS Vanguard. Yn ei datganiad, dwedodd Sue: "Rwyf wedi arwyddo addewid i atal trosedd niwclear, a dyna'r rheswm pam rwyf yn ôl yma yn Plymouth. Roeddwn yn sefyll ar Plymouth Hoe pan aeth HMS Vanguard heibio ym mis Chwefror 2002. Roedd yn ddiwrnod ofnadwy, ac mae'r tristwch ynof i'r dydd heddiw." Dwedodd Matt: "Rwyf wedi ymgymryd â'r weithred uniongyrchol hon yn erbyn arfau niwclear Prydain fel dinesydd Prydeinig sy'n cydnabod fod gan y gyfraith ryngwladol fwy o bwysau na chyfraith Brydeinig. Rwyf hefyd yn ymwybodol nad yw Prydain, er iddi arwyddo'r Cytundeb Atal Amlhad (CAA), wedi cymryd unrhyw gamau tuag at ddiarfogi niwclear, a'i bod yn gweithio ar raglen arfau niwclear newydd yn y Sefydliad Arfau Atomig, Aldermaston." Fis Tachwedd diwethaf aeth dau weithredydd Trident Ploughshares arall ar fwrdd Vanguard a gallasant ei "harchwilio' am dipyn cyn canu'r gloch larwm ei hunain i dynnu sylw swyddogion diogelwch.

Ar y 25ain Hydref, ymunodd gweithredwyr Trident Ploughshares ag ymgyrch "Bomspotting" mewn gweithred uniongyrchol ddi-drais yn SHAPE (Uwch Bencadlys Pwerau'r Gynghrair yn Ewrop) yn Mons, Gwlad Belg. SHAPE yw pencadlys milwrol NATO, a dyma lle y bydd NATO'n gwneud cynlluniau milwrol ar gyfer yr arfau niwclear sydd wedi eu storio mewn canolfannau ledled Ewrop, ac ar gyfer arfau niwclear sy'n cael eu cario ar longau tanfor Trident yng ngogledd yr Iweryd. Bydd pobl o bedwar ban y byd yn ceisio mynd i mewn i'r ganolfan mewn modd di-drais ac atebol i wneud arolwg arfau dinasyddion er mwyn datgelu'r cynlluniau ar gyfer defnyddio arfau dinistr torfol niwclear anghyfreithlon.

### heddweithredu:

***Ymrwymwch i Trident Ploughshares. Dewch i'r gweithredoedd torfol.**
**Mae croeso i bawb sydd am brotestio'n ddi-drais yn erbyn Trident i ymuno â gweithredoedd torfol. Yn ogystal â rhoi llawer o gefnogaeth ac anogaeth i'r rhai sy'n cael eu restio, efallai y byddwch am ystyried ymuno yn y weithred. Os felly, gellwch fynychu cwrs hyfforddiant byr – a mwynhau ychydig o oriau yn dysgu beth yn union i'w ddisgwyl.**

***Rhowch gyfraniad a chodwch arian**
**Mae angen arian ymgyrchu beunydd. Danfonwch gyfraniadau (sieciau'n daladwy i 'Trident Ploughshares 2000') i'r cyfeiriad isod, os gwlewch yn dda.**

***Deisebau o Gefnogaeth i Trident Ploughshares. Mae deisebau cefnogaeth ar gael i uniugolion, mudiadau, gwleidyddion ac ati eu harwyddo Cysyllter â Trident Ploughshares am fwy o wybodaeth.**

**Cysyllter â: Trident Ploughshares, 42-46 Bethel St, Norwich NR2 1NR (0845) 45 88 364 info@ tridentploughshares.org www. tridentploughshares.org**

## Pedwar achos Fairford

Cyflwynodd pob un o'r diffynyddion yn y pedwar achos llys 'Fairford' - Paul Milling, Margaret Jones, Phil Pritchard, Toby Olditch, Josh Richards, Kate Holcombe, Geoffrey Cornock ac Owen English – 'esgus cyfreithlon' fel amddiffyniad yn erbyn y cyhuddiad o anablu, neu geisio anablu, awyrennau ac offer cefnogol yng Ngwersyll Awyrlu'r UD yn Fairford (Swydd Gaerloyw, Lloegr) yn yr wythnosau cyn yr ymosodiad ar Irac. Hawliodd y diffynyddion eu bod wedi gweithredu ar y sail fod y rhyfel yn erbyn Irac yn anghyfreithlon, gan wneud eu gweithredoedd uniongyrchol di-drais hwythau yn gyfreithlon. Mae'r amddiffyniad hwn o 'esgus cyfreithlon' yn golygu fod yn rhaid i'r achosion ystyried cyfreithlondeb rhyfel ei hun.

### Agor clwydi

Cafwyd cam annisgwyl yn ystod y gwrandawiadau traddodi ger bron y Barnwr Jamie Tabor, ym mis Medi pan benderfynodd y Barnwr 'ddatgyplysu' achos Kate Holcombe, Geoffrey Cornock ac Owen English (a gyhuddir o agor clwyd yn y ffens amgylchynol mewn gwrthdystiad ym mis Chwefror 2003) oddi wrth yr achosion eraill. Bydd yr achos hwn yn mynd ger bron Llys y Goron Caerloyw ar y 12fed o Dachwedd. Gobeithio y bydd pawb yn cefnogi'r tri diffynydd, a wnaeth gymaint i sicrhau fod y gwrthdystiadau a'r gwersyll yn Fairford yn effeithiol. Maent yn gwir haeddu ein cefnogaeth.

### Achosion i'w clywed ym Mryste

Mae'r tri achos arall yn cael eu symud i Lys y Goron, Bryste. Mae hyn oherwydd fod yr achosion yn debyg o gymryd wythnosau yn hytrach na dyddiau, ac fe fyddant o gryn ddiddordeb i'r cyhoedd yn gyffredinol. Penderfynodd y Barnwr Tabor fod angen gwell cyfleusterau ar y rheithgor ac aelodau o'r cyhoedd nag y gallai llys Caerloyw eu cynnig. Bydd gwrandawiad rhagarweiniol yn Llys y Goron Bryste ar faterion yn ymwneud â rhyfel Irac rywbryd ym mis Ionawr, mae'n debyg. Disgwylir i'r gwrandawiad rhagarweiniol hwn ar faterion cyfreithiol bara ryw wythnos. Yna bydd y tri achos gwahanol yn dilyn hynny.

### Cwestiynau

Bydd yn ddiddorol clywed atebion i'r cwestiynau: "A oedd y rhyfel yn erbyn Irac yn torri cyfraith ryngwladol? Os felly, a ydy hynny'n gwneud y rhyfel yn drosedd o dan gyfraith y DU ei hun?"

**Gweler:www.fairfordpeacewatch.com/IraqWaronTrial.html**

# cynhyrchwyr arfau a'r fasnach arfau

# Dweud 'na'

**Mae cynhyrchwyr a masnachwyr arfau'n cael eu dal yn gyfrifol am eu rhan yn y peiriant rhyfel ffiaidd.**

### Gweithredu yn Llundain

Cymerodd llawer o weithredwyr o Gymru ran mewn gweithredu uniongyrchol – gwylnosau, gorymdeithiau a digwyddiadau symbolaidd, yn erbyn y Ffair Arfau (DSEi) yn Nociau Llundain. Ymatebodd yr awdurdodau drwy wneud defnydd anghyfreithlon o bwerau gwrth-frawychiaeth (restiwyd un dyn am fyfyrio!). Mae'r grwp hawliau dynol Liberty yn herio tactegau'r heddlu yn yr Uchel Lys (gweler heddweithredu).

### Gweithredu yng Nghymru

Cafodd arddangosfa a chynhadledd awyrofod a gynhaliwyd yn ystod yr wythnos yng Nghaerdydd ym mis Medi eu picedu gan fwy na chant o unigolion ac aelodau grwpiau, yn cynnwys Menywod mewn Du Caerdydd, CND Cymru, y Crynwyr, Cynefin y Werin, Fforwm Gymdeithasol Caerdydd, Rhwydwaith Anarchwyr Caerdydd, Côr Cochion Caerdydd, yr Ymgyrch yn erbyn y Fasnach Arfau, Plaid Cymru a'r Blaid Werdd. Roeddent yn protestio yn erbyn presenoldeb nifer o arddangoswyr a chyfranogwyr â chysylltiadau milwrol, yn cynnwys cwmnïau arfau ac 'amddiffyn'.

### Siwtiau

Cynhaliwyd y digwyddiad awyrofod sifilaidd a milwrol MRO (Maintenance, Repair and Overhaul) Europe yn Arena Ryngwladol Caerdydd (CIA) ac roedd y cyfranogwyr yn cynnwys British Aerospace (BAe), Boeing, Rolls Royce a General Electric a chwmni Raytheon o'r UD (cynhyrchydd taflegrau Patriot a Tomahawk Cruise, bomiau wedi eu tywys â laser ac awyrennau milwrol di-beilot). Yn ôl deunydd hyrwyddo *Aviation Week*, y cwmni o'r UD a drefnodd MRO Europe, mae cwmnïau yng Nghymru eisoes yn cymryd rhan "mewn amrywiaeth o weithgareddau, o arddangosiadau ar gyfer awyren ymladd F16 yr UD i offer ar gyfer NASA a phropelwyr arbenigol ar gyfer awyrennau di-beilot." Noddwyd yr achlysur (gyda'n harian ni) gan Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) a'r Cynulliad Cenedlaethol. Ceisiodd y WDA egluro mai digwyddiad awyrofod sifilaidd oedd MRO Europe a bob y protestwyr wedi gwneud camgymeriad, ond roedd hi'n amlwg na fyddai'r stori honno'n twyllo neb, nid yn unig oherwydd fod y cynrychiolwyr a'i mynychodd yn cynnwys cynrychiolwyr Gweinyddiaethau Amddiffyn ond hefyd am fod agenda'r gynhadledd yn cynnwys eitemau ar gynhyrchu yn gysylltiedig ag arfau. Aeth nifer o'r gweithredwyr i mewn i CIA i siarad â'r trefnwyr. Chafodd neb ei restio.

### Atal y Bws

Dwedodd yr Is-gadeirydd Rod Stallard yn y brotest: "Dylai adnoddau gwerthfawr Cymru gael eu defnyddio i ddelio â'r problemau sy'n achosi gwrthdaro, nid i hyrwyddo buddsoddi mwy yn y peiriant rhyfel. Os awn ati i baratoi at ryfel, bydd rhyfeloedd yn cael eu hymladd." Roedd Leanne Wood AC a Jill Evans ASE a Chadeirydd CND Cymru yn y brotest hefyd. Ataliwyd bws yn llawn cynrychiolwyr ar ei ffordd i ymweld ag RAF Sain Tathan am 45 munud gan brotestwyr a eisteddodd yn y ffordd y tu allan i'r CIA. Bu'n rhaid i'r heddlu gario'r protestwyr o'r ffordd.

### Buddugoliaeth yn Aberporth

Cawsai gwrthdystiad arall ei drefnu i gyfarch ymwelwyr â Chynhadledd arall: "Selling to the MoD Aberporth Update", y bwriedid ei chynnal ar safle profi arfau Qinetiq yn Aberporth. Ar ôl y cyhoeddiad y byddai gwrthdystiad, cyhoeddwyd na fyddai'r Gynhadledd yn cael ei chynnal, oherwydd 'diffyg diddordeb' mae'n debyg. Agenda'r gynhadledd oedd annog busnesau yng Nghymru i werthu i'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Ond er honni ei bod am ddenu busnesau o Gymru, cynhyrchwyd yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd yn uniaith Saesneg.








### Pwyso ar Aelodau'r Cynulliad

Mewn llythyr a ddanfonwyd at bob Aelod o'r Cynulliad, yn eu rhybuddio nad yw diwydiannau cysylltiedig ag arfau yn amgylcheddol nac yn economaidd




gynaliadwy, atgoffodd CND Cymru Aelodau Cynulliad am obeithion pobl Cymru:

*"Ym 1998, roedd llawer ohonom yn hapus dros ben i wybod ei bod bellach yn bosibl magu teulu mewn Cymru flaengar, egwyddorol, ac amgylcheddol sensitif. Mae'n gweithlu medrus a brwdfrydig yn haeddu cael eu parchu drwy gael gwaith moesol a swyddi go iawn y gall pawb yng Nghymru ymfalchïo ynddynt."* Mae CND Cymru yn galw am atal atal cefnogaeth y Cynulliad i hyrwyddo busnes a swyddi yn y diwydiant arfau a diwydiannau cysylltiedig. *Mae cefn gwlad Cymru eisoes yn cael cam mawr gan y sefydliad milwrol. Peidiwch â gadael i Gymru fynd yn Barc Busnes ar gyfer y diwydiant arfau hefyd.*

### heddweithredu

**Bydd Cynefin y Werin yn cynnull Cynhadledd ar Filitareiddio Cymru yn gynnar y flwyddyn nesaf. Cysyllter â: Clare Sain Ley Berry: 02920 821 055 claresainleyberry@wcia.org.uk neu Ben Gregory (01286) 882 359 benica@gn.apc.org am fwy o wybodaeth.**

**Mae ar Liberty angen eich help: os cawsoch eich chwilio gan heddlu'n defnyddio pwerau Adran 44 (pwerau gwrth-frawychiaeth) cysylltwch â Liberty yn http:www.liberty-human-rights.org.uk (0207) 403 3888.**

# llyfrau a darnau



## llyfrau

**'The Case against War'**
**Barn Gyfreithiol Hanfodol a Dyfarniadau ynglwn â'r Rhyfel yn Irac**
George Farebrother a Nicholas Kollerstrom (gol.) Medi 2003
Copïau am £5 yr un gan Legal Inquiry Steering Group, World Court Project, 67 Summerheath Road, Hailsham, Sussex BN27 3DR (01323) 844 269 ebost geowcpuk@gn.apc.org www.gn.apc.org/wcp
Sieciau'n daladwy i "World Court Project"

**'The British Nuclear Weapons Programme 1952-2002'**
Douglas Holdstock a Frank Barnaby (gol.)
Awduron yn cynnwys Hugh Beech, Rob Green, Bruce Kent, Sue Rabbitt Roff, a Sebastian Pease gyda Rhagair gan Joseph Rotblat. Hydref 2003.
Mae'n bwrw golwg feirniadol dros hanes rhaglen arfau niwclear Prydain gan ganolbwyntio ar yr effeithiau ar iechyd, gan gynnwys:
* profion a'u heffaith ar aelodau'r lluoedd arfog a phobl frodorol;
* cynhyrchu ac ailbrosesu yn Sellafield a'r cyffiniau;
* gwrthwynebiad i'r bom Prydeinig;
* oblygiadau beth fydd yn cymryd lle Trident (rhaid penderfynu cyn hir);
* brawychiaeth niwclear – bygythiad niwclear heddiw;
* rhoi terfyn ar arfau niwclear Prydain?
* Diweddglo – ni chyflawnodd ddim, gwnaeth niwed; mae'n bryd dod â hyn i ben.
£17.50 Cyhoeddwyd gan Frank Cass ISBN: 0714683175

**'The Promise of Justice'**
Dr Glen Rangwala. Darlithydd mewn Gwleidyddiaeth, Coleg Newnham, Caergrawnt NLAP (Y Sefydliad dros Gyfraith a Heddwch) 2003
lCyhoeddiad i nodi sefydlu'r Llys Troseddol Rhyngwladol.

Defnyddiol ar stondinau llyfrau neu i'w ddanfon at eich AS!

50 ceiniog am lyfryn 12-tudalen A5: Trysorydd, INLAP, 67 Summerheath Road, Hailsham, Sussex BN27 3DR (01323) 844 269 Sieciau'n daladwy i "The Institute for Law and Peace"

**'War no More'**
**Dileu gwrthdaro yn yr Oes Niwclear**
Robert A Hinde a Joseph Rotblat
Mae'r gyfrol hon yn disgrifio'r peryglon gwirioneddol rydym yn eu hwynebu gan ddadlau fod dileu arfau dinistr torfol a dileu rhyfel yn nodau cyraeddadwy ac angenrheidiol. Mae'n archwilio'r ffactorau allweddol y credir eu bod yn cyfrannu at wrthdaro a sut y gellir sicrhau dyfodol heddychlon drwy fynd i'r afael â'r bwlch rhwng cyfoeth a thlodi, bod â rheolaeth gwbl effeithiol ar arfau ac, uwch law popeth arall, addysgu pobl yn well.
ISBN 07453 2191 7 £10.99 Pluto Press 2003 (020) 8343 2724

**'Casualty of War'**
**Wyth wythnos o wrth-frawychiaeth yng nghefn gwlad Lloegr**
Mae'r adroddiad hwn gan y mudiad ymgyrchu dros Hawliau Sifil a Hawliau Dynol *Liberty* yn adrodd hanes gwarthus y modd y defnyddiodd yr heddlu bwerau a roddwyd o dan Ddeddf Gwrth-Frawychiaeth 2000 i atal a chwilio protestwyr heddychlon yng nghyffiniau USAF Fairford yn Swydd Gaerloyw a gwersylloedd milwrol eraill yng nghefn gwlad Lloegr. Roedd y dulliau hun yn tarfu ar brotestio cyfreithlon, gan fygwth ac erlid gwrthdystwyr heddychlon ac, mewn rhai achosion, hyd yn oed tramgwyddo'r hawl i ymgynnull yn rhydd.Mae Liberty a grwpiau eraill yn pwyso am ymchwiliad i weithredoedd yr heddlu yn Fairford a mannau eraill. Yn ôl yr ateb i Gwestiwn Seneddol gan Adam Price, AS Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, costiodd gwaith yr heddlu yn Fairford yn ystod y rhyfel yn erbyn Irac £6.9 miliwn.

Mae'r ddogfen 'Casualty of War' a phamffled yn cynnwys tystiolaeth tri phrotestiwr heddychlon ar gael yn rhad ac am ddim o welfan Liberty: www.liberty-human-rights.org.uk
Mae copïau o'r pamffled tystiolaeth, 'Can you Spot the Difference?' ar gael yn rhad ac am ddim. Danfonwch amlen wedi ei chyfeirio â stamp gyda'ch cais at: Campaigns, Liberty, 21 Tabard Street, Llundain SE1 4LA. Mae copïau gwreiddiol o'r ddogfen 'Casualty of War' ar gael am £5 (sieciau'n daladwy i Liberty).

## cerddoriaeth

**'Peace not War'**
**Casgliad 2-CD Gwrth-ryfel sef amrywiaeth** o gerddoriaeth yn erbyn rhyfel yn cynnwys caneuon gan Alabama3, Billy Bragg a Chumbawumba, Public Enemy, Pete Seeger, DJ Spooky, GM Baby a Ms Dynamite. Cynhyrchwyd i godi arian ar gyfer grwpiau heddwch a gwrth-ryfel. Gall grwpiau eu prynu am £5 yr un a'u gwerthu am £15. Cysyllter â Shellshock (020 8800 8110). Mwy o fanylion ar www.peace-not-war.org neu gan New Internationalist (01709) 513 999, neu gweler www.newint.org

**Côr Cochion Caerdydd**
**Penblwydd hapus yn 20 i'r Côr Cochion!** Mae'r côr ardderchog yma wedi bod yn ymgyrchu er 1983 dros heddwch, rhyddid a chyfiawnder. Maent wedi codi calonnau mewn gweithredoedd uniongyrchol ac ar y strydoedd, ac maent hefyd wedi codi miloedd lawer o bunnau ar gyfer grwpiau sy'n cefnogi pobl sy'n brwydro dros hawliau dynol, sifil ac undebau llafur ym Mhrydain a phedwar ban y byd. Am fanylion ynglwn ag ymuno â'r côr neu dod yn un o Gyfeillion **Côr Cochion**, i brynu crys-T neu dapiau a'u CD ddiweddaraf, **Goreuon Côr Cochion**, cysyllter â Wendy Lewis, cyfarwyddydd cerdd (012920) 889 514
wendy.lewis2@aladdinscave.net.
www.côrcochion.unisonplus.net

**'Celebrating 20 Years of Song and Struggle'**
**Hanes a llyfr caneuon Côr Cochion**
**Beatrice Smith**
Hanes y rhan a chwaraewyd gan y côr mewn llu o ymgyrchoedd y bu'n rhan ohonynt, ynghyd â geiriau a cherddoriaeth ugain o ganeuon o repertoire Côr Cochion. ISBN:0 86243 694 X Pris £6.95 o siopau llyfrau.

**Mwynhewch Gerddoriaeth y Byd a Chefnogwch VSO Cymru !**
CDiau/casetiau cerddoriaeth Affricanaidd SO/Rough Guide ar werth, CDiau – dim ond £5/ casetiau dim ond £3.50 – tra pery'r cyflenwad. Nodwch pa rai yr hoffech eu cael o blith: The Music of Zimbabwe; West African Music (nifer cyfyngedig, felly ffoniwch gynta); The Music of Kenya and Tanzania; The Music of South Africa; neu African Blues (nifer cyfyngedig - ffoniwch gynta). Danfonwch siec (yn daladwy i VSO Trading) am £5.50 / £4 (50c i dalu am gludiant) at: VSO Cymru, Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3AP. Tel: 029 20 415047
Neu gallwch brynu dros yn rhyngrwyd yn www.vso.org.uk/ fundraising - cliciwch ar y siop ar-lein. Elusen ddatblygu ryngwladol yw VSO (Gwasanaeth Gwirfoddol Tramor) sy'n gweithio drwy gyfrwng gwirfoddolwyr.

## dathliad

**Cardiau Nadolig CND Cymru**
Cardiau dwyieithog mewn pecynnau o chwech o'r un dyluniad, gydag amlenni. Pris £4 am 3 phecyn; £7.50 am 6 phecyn (gan gynnwys cludiant). Sieciau'n daladwy i 'CND Cymru': oddi wrth Masnachu CND Cymru, 72 Heol Gwyn, Alltwen, Pontardawe SA8 3AN.



## drama
# Yr Hen Gelwydd ar Dafodau Newydd

Cafodd drama newydd Patrick Jones, "The War is Dead, Long Live the War", ei pherfformio yn Sefydliad y Glowyr, Y Coed Duon ym mis Medi. Yn ôl Jones, roedd rhaid iddo sgrifenny'r ddrama hon i "dystio i'r rhyfel yn erbyn Irac... a'r ymagor edwinol yma o ddynoliaeth, yr ymddieithriad yma, y byd ffug-wynebog, cip-eiriog yma.'

Gan ddisgrifio'r cefndir i'r ddrama, eglurodd: "Nid drama ynglwn â rhyfel Irac yn unig mo hon – mae yn erbyn afradlonrwydd ofer y ddynolryw, yn erbyn ffwlbri bwledi, bomiau, lifrai khaki – mae yn erbyn y Tywysog Phillip yn gwisgo rhesi o fedalau, yn erbyn y Frenhines ar Sul y Coffa, mae yn erbyn dynion oedd yn helwyr llwynogod yn cael eu hesgusodi rhag ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf, mae yn erbyn pobl anwybodus yn rhoi plu gwynion i ddynion, mae yn erbyn dwy funud o ddistawrwydd yn y ganrif hon o sgrechfeydd ac, ydy, mae ynglwn â'r hyn sydd newydd ddigwydd – mae yn erbyn Bush yn rheoli ein polisi tramor, mae yn erbyn arweinydd Llafur yn dweud celwydd wrth ei bobl, mae yn erbyn anwiredd rhyfel – mae'n dweud 'os mai ni yw gwaredwyr y byd, boed i ni WAREDU pobl ym Mhalesteina, Kosovo, Rwanda, Sierra Leone, Chechnya, Zimbabwe... Prydain'. Mae'n gofyn sut y gallwn ddanfon ceiswyr noddfa adre ac eto bomio eu gwlad, ac fe'i hysgrifennais er clod i'm tadcu gafodd ei wenwyno gan nwy ar y Somme, fy hen datcu a ymladdodd yntau yn yr un frwydr... fe'i hysgrifennais i Wilfred Owen, am ei eiriau hardd, ac fe'i ysgrifennais ar gyfer fy nhri mab ifanc, yn y gobaith nad ânt hwy byth i **ymladd yn rhyfel dyn arall."**

**Perfformiwyd "The War is Dead, Long Live the War" yn yr ICA yn Llundain hefyd, gyda'r siaradwyr gwadd George Galloway a Karl Francis.**

**Mwy o wybodaeth am y ddrama gan www.sortedproductions.com neu patrickjones@tiscali.co.uk**

## adolygiad
# 'Regime Unchanged Why the war on Iraq changed nothing'

Milan Rai
Pluto Press
ISBN 0 7453 2199 2 (paperback)

Dylai'r wybodaeth a geir yn y llyfr manwl a gofalus ei ymchwil hwn fod yn ddigon i garcharu'r rheini a 'werthodd' y rhyfel atgas yn Irac i'r byd. Ni ellir gorbwysleisio mor ddifrifol oedd eu trosedd, a chânt eu datgelu'n llwyr yn y gyfrol newydd hon.

Mae John Pilger yn canmol y llyfr fel 'dadleniad ardderchog o'r celwyddau a symbylodd yr ymosodiad troseddol ar Irac', canmoliaeth gryno, ond mewn gwirionedd, mae'r llyfr yn llawer mwy na hynny. Doedd yr ymosodiad ar Irac erioed yn fater syml o arfau dinistr torfol, newid y llywodraeth, diogelwch yr UD neu unrhyw 'achos clodwiw' arall o'r fath: y cymhellion oedd olew, trachwant a balchder gwleidyddol.

Mae Milan Rai yn cychwyn drwy groniclo momentwm anferth y mudiad yn erbyn y rhyfel. Mae'n nodi gorchestion mawr y mudiad, o roi ofn ei fywyd i Blair, a dod mor agos at atal yr holl broses ryfel yn gyfangwbl, i'r pwysau a osododd llywodraeth yr UD ar y fyddin, a geisiodd atal ymosodiadau ar dargedau sifil yn Irac am eu bod yn ofni y byddai canlyniadau cyfreithiol.

Dirmygir ymgais Colin Powell i roi cyflwyniad 'Adlai Stevensonaidd' i'r CU wrth i Rai nodi un elfen hanfodol oedd ar goll yng nghyflwyniad Powell: y gwirionedd! Ymdrinir yn fanwl ag ymdrechion (llwyddiannus) Bush i danseilio'r arolygwyr arfau, ynghyd â'i ymgais (aflwyddiannus) i fwrw sen ar y CU, safbwynt a fabwysiadwyd ganddo cyn gynted ag y daeth yn gwbl glir nad oedd gan Saddam ddim Arfau Dinistr Torfol ac nad oedd yn unrhyw fath o fygythiad i'r Gorllewin nac, yn wir, i'w gymdogion.

Wedi i Bush farnu, i bob pwrpas, fod y CU yn 'amherthnasol', mae Rai yn nodi'r gollyngdod amlwg yn Washington fod "y bygythiad o heddwch wedi cael ei ddileu"! Datgelir mai 'newid arweinyddiaeth' oedd agenda'r UD yn hytrach na 'newid llywodraeth', gyda thystiolaeth fod aelodau blaenllaw o'r blaid Ba'ath wedi cael eu hailgyflogi mewn swyddi o awdurdod yn Irac.

Mae gan Rai eiriau llym ar gyfer y wasg 'daeog' a'i pharodrwydd i ffeirio tystiolaeth ffeithiol a chwestiynu caled am wibdaith mewn tanc – dylent geisio gwneud yn iawn am eu hymddygiad drwy gyhoeddi penodau o'r llyfr hwn yn eu papurau!

Mae gwaith Milan Rai yn gwbl hanfodol er mwyn gallu gweld drwy'r celwydd a'r gwyrdroi, a deall y gwir resymau pam aeth y 'lluoedd dros heddwch a chyfiawnder' hunan-benodedig i ryfel.

**Ian Jones**

**Milan Rai hefyd yw awdur 'ARROW (Active Resistance to the Roots of War)', papurau cefndir yn gwrthwynebu'r rhyfel, a 'War Plan Iraq'. Mae 'Regime Unchanged' ar gael am £10.95 mewn siopau llyfrau neu am £10.00 (yn cynnwys cludiant) oddi wrth Justice Not Vengeance (JNV), 29 Gensing Road, St. Leonards on Sea, East Sussex TN 38 0HE (0845) 458 9571. Sieciau'n daladwy i 'JNV'.)**

## adolygiad
# Web of Deceit: Britain's Real Role in the World
**Mark Curtis**

Vintage Books 2003
ISBN 0-099-44839-4

Mae'r gyfrol hon yn datgelu beth yn union yw polisi tramor Prydain mewn modd sy'n syfrdanu ac yn aflonyddu, Bydd hyd yn oed y rheini sy'n gyfarwydd â hanesion amgen am rôl Prydain yn y byd yn arswydo wrth yr hyn mae Curtis yn ei ddatgelu yn y llyfr amserol a ffrwydrol yma.

Gan ddefnyddio dogfennau llywodraeth cyfrinachol nas datgelwyd o'r blaen, mae Curtis yn adrodd hanes milain a gwaedlyd y rhai fu'n gyfrifol am weithredu polisi tramor Prydain. Mae *Web of Deceit* yn galw Prydain yn 'wladwriaeth ddi-gyfraith', yn tanseilio llywodraethau democrataidd (Iran a British Guiana); yn ymgynghreirio â llywodraethau gormesol a chefnogi brawychiaeth gwladol (Israel, Twrci, Saudi Arabia, Rwsia); yn torri'r gyfraith ryngwladol (yn y CU a thrwy'r fasnach arfau); ac yn euog o gymryd rhan mewn lladd ac arteithio torfol (Indonesia), gan chwalu'r myth o Brydain fel 'grym er lles yn y byd'. Mae Curtis yn olrhain yn feistrolgar y rhan a chwaraewyd gan lywodraeth Blair yn y 'rhyfel ar frawychiaeth'; yr ymosodiad diweddar ar Irac; y polisi rhagrithiol ar allforio arfau; a'r bygythiad brawychus i ddefnyddio arfau niwclear, bob un yn datgelu'r safonau deublyg a'r dichell wrth galon polisi tramor anfoesol Blair. Mae Curtis hefyd yn condemno'r cyfryngau corfforaethol yn ddeifiol am gydymddwyn â'r troseddau hyn, drwy dadansoddi eu cynnyrch a oedd, yn amlach na pheidio, yn bropaganda anfeirniadol a thaeogaidd.

Elfen ganolog ei ddadansoddiad yw nad yw polisïau gwleidyddol ac economaidd Prydain yn ddim byd newydd; yn hytrach, parhad ydynt o ymgais hanesyddol Prydain i reoli adnoddau economaidd y byd a sicrhau ufudd-dod gwledydd eraill a'u pobloedd heb dalu nemor ddim sylw i ddemocratiaeth neu hawliau dynol.

Mae *Web of Deceit* yn cloi gyda phennod fer ar yr her i weithredwyr dros gyfiawnder a heddwch. Yma, mae Curtis yn annog 'cyrch mawr newydd gan bobl a mudiadau sy'n pryderu, i ddemocrateiddio'r broses o lunio polisi a system lywodraethol Prydain' (t. 439). Ym marn Curtis, 'mae hanes polisi tramor Prydain i raddau yn fater o gydymddwyn â rhai o ddigwyddiadau mwyaf erchyll y byd. Pe baem yn onest, byddem yn gweld rôl Prydain yn byd i raddau helaeth fel rhestr o droseddau yn erbyn y ddynolryw' (t. 432). Yn wyneb y cofnod hanesyddol hyll a chywilyddus a roddir gan Curtis, ein cyfrifoldeb ni yw 'atal yr hyn sydd yn cael ei wneud ar hyn o bryd yn ein henw a newid rôl Prydain yn y byd nes ei bod, o'r diwedd, yn hyrwyddo gwerthoedd dynol' (tud. 440).

Mae *Web of Deceit* nid yn unig yn afaelgar, yn frawychus ac yn llawn gwybodaeth, mae hefyd yn hynod o hawdd ei ddarllen. Mae'n angenrheidiol fod bawb yn ei ddarllen. Prynwch gopi, ei ddarllen a'i roi'n anrheg i rywun arall – nawr!

**David Mcknight**

# dydiadau dyddiadur

**Tachwedd 9fed *Sul y Coffa*** – gwisgwch y pabi gwyn fel arwydd ein bod yn benderfynol o weithio gyda'n gilydd i ddileu rhyfel am byth.
Cysyllter â: Peace Pledge Union (0870) 770 7944 wp@ppu.org.uk www.whitepoppy.org.uk

**Tachwedd 9 fed *Lawr â'r Wal!*** Dydd Protest Fyd-eang yn erbyn 'Wal Apartheid' newydd sy'n cael ei chodi gan Israel ar draws y Tiroedd Palestinaidd dan Feddiant. Ar y 9 fed o Dachwedd 1989 cafod Wal Berlin, symbol cywilyddus gwleidyddiaeth rwygol yr 20fed ganrif, ei rhwygo i lawr. Mae Grwpiau Cydgadernid Palesteina yn annog pobl i weithredu yn eu cymunedau eu hunain. Cysyllter â Jill Stallard i roi gwybod i ni beth rydych chi wedi ei drefnu er mwyn i ni allu rhoi gwybod i bobl eraill (01550) 750 260 heddwch@nantgaredig.freeuk.com
Am fwy o wybodaeth ynglwn â'r gweithredu byd-eang: Cydgadernid Palesteina Cymru www.psccymru.org neu www.stopthewall.org
Gweithredd ym Mangor ar y 9fed Cysyllter ag Awel Irene: (01766)771 475

**Tachwedd 11fed 7.30pm** Cyfarfod Cyhoeddus Wrecsam: *Y Mudiad er Dileu Rhyfel* Owen Hardwicke, manylion tud. 7

**Tachwedd 15fed 10.30 – 4.00pm** Adeilad Huw Owen Prifysgol Cymru Aberystwyth. Cynhadledd Undydd: ***Diwygio'r CU a'r Agenda Fyd-eang,*** noddwyd gan Sefydliad Coffa David Davies, CCU Cymru, ac wedi ei chefnogi gan CND Cymru. £5 (£3.50 aelodau CMRhC/ CCU ac CND). Cysyllter ag: una@wcia.org.uk neu Clare Sain Ley Berry (02920) 821 055

**Tachwedd 12 fed – 16eg Paris,** Ffrainc. ***Fforwm Gymdeithasol Ewrop*** – Atal Rhyfel! Yn Erbyn Pwer Corfforaethol – Dim Preifateiddio! Dim Ewrop Gaerog! Amddiffyn Diwylliannau a Bioamrywiaeth! Cyfarfod agored o grwpiau a mudiadau cymdeithas sifil ag ymrwymiad i adeiladu cymdeithas gyfiawn. Cysyllter â: www.fse-esf.org neu (020) 7053 2072

**Tachwedd 19eg - 21ain *Atal Bush!*** Ymweliad gwladol â Phrydain gan Arlywydd yr UD George Bush. Mae Clymblaid Atal y Rhyfel yn galw ar ymgyrchwyr i brotestio yn erbyn y rhyfelgarwr hwn drwy hongian baneri mewn colegau, mannau gwaith, pontydd, theatrau ac orielau i roi cyhoeddusrwyddi'r gwrthwynebiad parhaus yn erbyn y rhyfel.

**Tachwedd 20fed *Gwyrthdystiad Prydeinig*** Llundain (ymgynnull am 2pm), trefnwyd gan Glymblaid Atal y Rhyfel, CND a Chymdeithas Fwslimaidd Prydain, ar raddfa briodol i ddiwrnod o'r wythnos. Mae gweithredoedd uniongyrchol yn cynnwys dymchwel cerflun o Bush yn Sgwâr Trafalgar ar ddiwedd y gwrthdystiad a chynhwysir mathau eraill o weithredu uniongyrchol di-drais yn y rhaglen. Pam na threfnwch weithgareddau lleol drwy gydol tridiau'r ymweliad? Efallai 'dymchwl' cerflun o Blair a/ neu Bush yn eich tref chi. Da chi, rhowch wybod i CND Cymru os ydych chi neu'ch grup yn trefnu digwyddiad yng Nghymru (gweler Cysylltiadau). Cysyllter ag CND Prydeinig am ddigwyddiadau yn Llundain: (020) 7700 2393 neu gweler www.cnduk.org

**Tachwedd 29fed** Bangor ***"Dyfodol y CU a Chysylltiadau Rhyngwladol"*** Cyfarfod Cyhoeddus gyda Harold Walker (cyn-lysgennad Prydain i Irac) a Malcolm Harper (Cadeirydd CCU Prydain). Cysyllter â: Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor (01248) 490 715 bajustpeace@hotmail.com

**Tachwedd 30fed** Nos Sul, Bangor 7.30pm Theatr Gwynedd Ffilm: ***Divine Intervention*** Palestinia 2002 tyst 15. Defnyddir yr arf mwyaf deifiol o'r cwbl, hiwmor, i bortreadu a disgrifio gwrthdaro'r Dwyrain Canol, ynghyd â sgwrs a thrafodaeth. Swyddfa Docynnau (01248) 351708

**Rhagfyr 1af *Diwrnod Carcharorion dros Heddwch.*** Sgrifennwch at rai sydd yn y carchar am ddilyn eu cydwybod. Cysyllter â War Resisters International am enwau a chyfeiriadau Carcharorion dros Heddwch (020) 7278 4040 neu gweler www.wri-irg.org

**Rhagfyr 6ed** 11.00am ***Cyngor CND Cymru*** –cyfarfod cyffredinol anghyffredin o flaen llaw i dderbyn Cyfansoddiad diwygiedig CND Cymru. Gwahoddir pob aelod a chynrychiolydd i fynychu. Cysyllter â'r Ysgrifennydd Cenedlaethol(gweler Cysylltiadau am fanylion).

**Rhagfyr 11eg 2.00pm – 6.00pm** Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd ***Y Llys Troseddol Rhyngwladol*** Siaradwyr Graham Blewitt (Tribiwnlys Rhyngwladol ar gyfer y gyn-Iwgoslafia), Gerry Simpson (LSE) a chynrychiolydd o Lysgenhadaeth yr UD. Tocynnau: £5 o flaen llaw (02920) 228 549 neu centre@wcia.org.uk

**Rhagfyr 13eg – 15fed** Menwith Hill, Swydd Efrog, Lloegr. ***Gwersyll Heddwch Menywod a Gwarchae.*** Menwith Hill yw canolfan ysbïo fwyaf yr UD yn y byd ac mae'n rhan o 'Amddiffyn' Taflegrau Cenedlaethol yr UD a fyddai'n galluogi'r UD i lansio ymosodiadau niwclear rhag-ataliol ar wlad arall heb ofn dioddef ymosodiad yn ôl. Cysyllter â Helen John (01943) 458 593 helenmenwith@yahoo.co.uk

**Ionawr 2004** Gweithdai Bangor: ***Gwneud Heddwch gyda'r Brawychwr Mewnol*** gyda Jo Berry (Tufnell). Cysyllter â: Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor (01248) 490 715 bajustpeace@hotmail.com

**17/18 Ionawr *'Reclaim the Bases' Penwythnos o weithredu yn erbyn militariaeth.*** Penwythnos o weithredu di-drais mewn gwersylloedd milwrol. Ewch ati i drefnu digwyddiad mewn gwersyll cyfagos. Cysyllter â: www.reclaimthebases.org.uk email@reclaimthebases.org.uk

**Chwefror 23ain 21ain mlwyddiant** arwyddo Datganiad y Gymru Ddi-niwclear gan bob Cyngor Sir a llawer o Gynghorau Dosbarth a Chymuned Cymru.

**Mawrth 6ed 11.00am Cyngor CND Cymru.** Cysyllter â'r Ysgrifennydd Cenedlaethol (gweler Cysylltiadau) am fanylion lleoliad ac agenda.

## cysylltiadau cnd cymru

**cadeirydd:**
Jill Evans MEP
(01978) 311 564
**is-gaderyddion**
Rod Stallard
(01550) 750 260
David Bradley(gogledd cymru)
(01978) 311 564
Olwen Davies (y canolbarth)
(01970) 611 994
Ray Davies (de cymru )
(029 20) 889 514
**aelodaeth &aelodau cysylltiol:**
Brian Jones,
72, Heol Gwyn, Yr Alltwen,
Pontardawe SA8 3AN
**masnachu**
Jan Henderson
(01792)830 330
**trysorydd:**
Jean Bryant,
16,Clôs
Ty'n y Cymer,
Porth,Y Rhondda CF39 9DE

**golygydd heddwch ac ysgrifenydd cyffredinol:**
Jill Stallard,
Nantgaredig,Cynghordy,
Llanymddyfri SA20 0LR
(01550) 750 260
heddwch@cndcymru.org

**Mwy o wybodaeth, syniadau neu gymorth i'w gynnig? Cysylltwch â'ch is-gadeirydd CND Cymru agosaf da chi, neu'r ysgrifennydd cyffredinol.**

## Cyfansoddiad CND Cymru

*At holl Aelodau a Chynrychiolwyr grwpiau a grwpiau cysylltiedig sydd wedi talu tanysgrifiad eleni.*

Galwyd Cyfarfod Cyffredinol Anghyffredin (CCA) cyn Cyngor CND Cymru 11.00am 6ed Rhagfyr 2003, i dderbyn yn ffurfiol Gyfansoddiad diwygiedig ar gyfer CND Cymru fel y cytunwyd gan y Cyngor yn Rhaeadr ar yr 11eg Hydref 2003. Gofynnir i unrhyw aelod neu gynrychiolydd sy'n bwriadu mynychu'r CCA neu sydd am weld copi o'r Cyfansoddiad diwygiedig, cysyllter â'r Ysgrifennydd Cenedlaethol cyn yr 20fed o Dachwedd 2003 (gweler Cysylltiadau).